Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Gallu Ariannol Plant, Pobl Ifanc a'u Rhieni yng Nghymru 2016

Canlyniadau cychwynnol o Arolwg Gallu Ariannol Plant a Phobl Ifanc y DU 2016

moneyadviceservice.org.uk/cy

Tachwedd 2017

Contents

Rhagair	1
Crynodeb Gweithredol	2
Cefndir a chyd-destun	2
Canfyddiadau'r Arolwg	2
Addysg ariannol yn y cartref	3
Addysg ariannol mewn ysgolion	4
Bregusrwydd	5
Cwestiynau sy'n weddill ac ymchwil pellach	6
Cyflwyniad	7
Cefndir	7
Methodoleg	9
Newidynnau dadansoddi	9
Pennod 1: Sut y mae plant yn cael mynediad at arian ac yn ei ddefnyddio	12
Rheoli arian o ddydd i ddydd	13
Mynediad at gynnyrch ariannol a defnydd ohonynt	17
Profiadau o wario a chynilo?	20
Goblygiadau	24
Pennod 2: Beth y mae plant yn ei feddwl am arian	25
Agweddau tuag at reoli arian	25
Nodau a dyheadau	30
Goblygiadau	31
Pennod 3: Beth mae plant yn ei wybod am arian	32
Deall cysyniadau a chynhyrchion ariannol	33
Deall gwerth arian	37
Gwybod sut mae cyllidebu	38
Deall rôl arian mewn cymdeithas	40
Goblygiadau	42
Pennod 4: Sut mae plant yn dysgu am arian	43
Cyngor a chyfarwyddyd	44
Cael gwybod am gyllid teuluol	45
Agweddau ac ymddygiadau rhieni	48
Dysgu yn yr ysgol	53
Goblygiadau	55
Y camau nesaf	56

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol gydnabod a diolch i'r holl sefydliadau ac unigolion sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r arolwg hwn.

Rhaid diolch yn benodol i BMG a reolodd y prif arolwg, NatCen a Family Kids and Youth a helpodd i ddatblygu cwestiynau'r arolwg a Judith Staig a helpodd wrth ddrafftio'r adroddiad.

Hoffem ddiolch i aelodau ein timau Mewnwelediad a Gwerthuso a Pholisi ein hunain sydd wedi gweithio ar yr adroddiad hwn, ac yn benodol i Helen Pitman, Shadi Ghezelayagh, Kirsty Bowman-Vaughan, Ann Griffiths a Lee Phillips. Hoffem ddiolch hefyd i Danielle Cope o Weithredu dros Blant Cymru am ei hamser yn adolygu'r adroddiad.

Yn olaf, dymunwn ddiolch i'r 4,958 o blant a'u rhieni, ac yn benodol i'r 593 o blant a'u rhieni yng Nghymru, am eu hamser wrth gymryd rhan yn yr ymchwil hwn.

Rhagair

Ceir cydnabyddiaeth gynyddol bod yr hyn y mae plant yn ei weld ac yn ei brofi adref, ac yng nghyd-destun cymdeithasol ehangach, yn hanfodol i'w gallu ariannol yn y dyfodol. Yn benodol, mae plant yn debygol o gael eu dylanwadu o oed cynnar gan sut y mae eu rhieni neu eu gofalwyr yn rheoli eu harian eu hunain, a hefyd gan sut y maen nhw'n cael eu cyflwyno i gysyniad arian.

Mae'r ymchwiliad a gyflwynir yma yn gwbl arloesol; dyma'r arolwg cynrychioladol cenedlaethol cyntaf i ganolbwyntio nid yn unig ar blant neu eu rhieni, ond y ddau gyda'i gilydd. Bydd hyn yn galluogi inni archwilio yn llawer manylach eu cyd-chwarae cymhleth, a sut y mae gwahanol ffactorau yn dylanwadu ar hyn. Mae'r dystiolaeth hon yn hanfodol, i helpu i greu darlun clir o anghenion - nid yn unig i blant a phobl ifanc eu hunain, ond hefyd i'w rhieni, athrawon ac eraill - ac wrth adnabod y ffyrdd mwyaf effeithiol o fodloni'r anghenion hynny. Rydym yn hyderus y bydd y saith prosiect 'Cronfa'r Hyn sy'n Gweithio' y gwnaethom eu sefydlu yng Nghymru'r llynedd a'r prosiectau eraill ledled y DU, yn gwneud cyfraniad pwysig at hyn ac edrychwn ymlaen at weld canlyniadau o'r don gyntaf o brosiectau yn ddiweddarach eleni.

Yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn uniongyrchol berthnasol i waith y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ymchwil i Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACEs).. Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i gefnogi ein gwaith cyfredol i wella lles plant, a'u hunain yn hŷn, gyda Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae plant sy'n cael profiad o gyllidebu, gwario a chynilo o oed ifanc – mewn amgylchedd diogel – yn fwy tebygol o allu rheoli eu harian yn effeithiol wrth iddynt gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu harian eu hunain. Mae 'dysgu wrth wneud' yn cefnogi ac yn atgyfnerthu addysg ariannol sydd bellach ar gael i bob plentyn oed ysgol yng Nghymru o'r fframwaith Cyfnod Sylfaen ac fel rhan o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar gyfer y rhai rhwng 5 a 14 oed yng Nghymru, a TGAU Mathemateg-Rhifedd. Bydd Strategaeth Gynhwysiant Llywodraeth Cymru a Strategaeth Gallu Ariannol Cymru hefyd yn gallu defnyddio'r ymchwil hwn i hysbysu eu rôl wrth ddatblygu sgiliau a gwybodaeth pobl ifanc o faterion ariannol.

Nid yw'r canfyddiadau yma'n syml, o bell ffordd, sy'n golygu bod yr adroddiad yn ddarlleniad diddorol iawn. Mae hefyd yn cyfeirio'r ffordd at nifer o feysydd ar gyfer ymchwiliad pellach. Er enghraifft, byddwn yn archwilio beth y gall y data ddweud wrthym ni am effaith magwraeth o fewn cartref incwm isel, a pha grwpiau a allai fod yn arbennig o fregus i lefelau isel o allu ariannol.

Mae'r ymchwil hefyd yn awgrymu bod angen cefnogi rhieni, y mae llawer ohonynt yn ansicr o sut, pryd neu pam y dylent gynnwys eu plant wrth reoli arian. Ond ar ba ffurf y dylid cefnogi rhieni, a sut y gellir ei dargedu yn effeithiol? Mewn partneriaeth â'r Gronfa Loteri Fawr, rydym wedi peilota yn helaeth ymyrraeth addysg ariannol i deuluoedd – 'Siarad, Dysgu, Gweithredu' – i archwilio'r materion hyn gyda rhieni yng Nghymru. Mae'r ymyrraeth hon bellach wedi'i chynnwys yn *Dechrau'n Deg – Atodiad Arweiniad Cymorth Rhianta Mai 2017*. Byddwn yn edrych yn agos ar ganlyniadau'r prosiect hwnnw ac yn rhannu'r canfyddiadau yn eang pan fydd y gwerthusiad wedi'i gwblhau yn 2018.

Ar hyn o bryd mae llywodraeth y DU yn paratoi i sefydlu corff arweiniad ariannol cyhoeddus newydd erbyn Hydref 2018. Bydd cylch gwaith y sefydliad newydd yn cynnwys amcan i hyrwyddo effaith addysg ariannol ar gyfer plant a phobl ifanc. Ein nod yw adeiladu ar argymhellion adroddiad thematig diweddar Estyn, *Rheoli arian: Addysg ariannol o fewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru* a pharhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac aelodau eraill o Grŵp Llywio Gallu Ariannol Cymru ynghyd â sefydliadau Cymru yn y sectorau plant, ieuenctid, rhianta ac addysg er mwyn i ni allu trosglwyddo corff sylweddol o dystiolaeth i'r sefydliad newydd i arwain ei ymdrechion yn y dyfodol yn y maes allweddol hwn.



David Haigh
Cyfarwyddwr Gallu Ariannol,
Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Lee Phillips
Rheolwr Cymru,
Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Crynodeb Gweithredol

Cefndir a chyd-destun

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn arwain wrth gydlynu cyflenwi Strategaeth Gallu Ariannol Cymru sy'n gysylltiedig â Strategaeth y DU ac yn ei fewnosod i Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru. Mae Strategaeth Gallu Ariannol Cymru yn anelu at wella gallu pobl i reoli arian yn dda, o ddydd i ddydd a thrwy ddigwyddiadau sylweddol mewn bywyd, a'u gallu i drin cyfnodau o anhawster ariannol. I gefnogi hyn, rydym eisiau sicrhau bod holl blant a phobl ifanc Cymru yn derbyn yr addysg ariannol sydd ei angen arnynt i'w helpu i ddod yn oedolion galluog yn ariannol.

Fel rhan o'n gwaith i gyflawni hyn, rydym wedi comisiynu astudiaeth ymchwil newydd: Arolwg Gallu Ariannol Plant a Phobl Ifanc y DU 2016. Dyma'r arolwg cyntaf o'i fath: arolwg sy'n gynrychioladol yn genedlaethol o wybodaeth, agweddau ac ymddygiadau ariannol y rhai rhwng 4 a 17 oed a'u rhieni, sy'n byw yn y DU. Mae'r arolwg yn cynnwys samplau cynrychioladol o blant, pobl ifanc a rhieni ar draws pob un o bedair cenedl y DU yn ychwanegol at sampl cyfan y DU. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â chanfyddiadau allweddol o Gymru, gan dynnu sylw at feysydd o debygrwydd a gwahaniaeth yn agweddau plant a rhieni yng Nghymru yn erbyn eu cyfoedion y DU ehangach. O fewn Cymru, holwyd cyfanswm o 593 o blant a phobl ifanc rhwng 4 a 17 oed, a'u rhieni fel rhan o'r ymchwil hwn, allan o gyfanswm sampl o 4,958 ar gyfer y DU i gyd.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad cychwynnol o ganfyddiadau'r arolwg newydd hwn ac yn ymdrin â:

- sut y mae plant yn derbyn arian
- sut y mae plant yn gwario ac yn cynilo arian
- agweddau plant tuag at wariant, cynilo a dyledion
- hyder y plant wrth reoli eu harian
- dealltwriaeth plant o werth am arian a'r angen i gyfaddawdu
- gwybodaeth ac addysg plant am gynnyrch, cysyniadau, a geirfa ariannol
- credoau ac agweddau rhieni tuag at eu gallu ariannol eu hunain a sgiliau, galluoedd ac agweddau eu plant.

Canfyddiadau'r Arolwg

Canfu ein hymchwil, yn gyffredinol, bod gan blant yng Nghymru sylfaen resymol o wybodaeth a dealltwriaeth o arian. Maen nhw'n adnabod rhai cynnyrch a chysyniadau ariannol ac yn gwybod bod gwerth i arian. Maen nhw'n ofalus am ddyledion, a chanddynt ddealltwriaeth ddamcaniaethol o bwysigrwydd cynilion a chysyniad gwerth am arian.

Serch hynny, mae rhai agweddau ar allu ariannol nad oes dealltwriaeth dda ohonynt, ac nid yw rhai plant yn gwneud cystal ag eraill. Mae angen clir i sicrhau bod yr addysg a'r gefnogaeth a ddarperir i blant, ac i'r rheini sydd yn eu helpu i ddysgu am arian yn y cartref ac yn yr ysgol, yn adeiladu ar gryfderau ac yn mynd i'r afael â meysydd datblygu.

Yn ychwanegol, o ganfyddiadau penodol i'r DU a Chymru, mae nifer o themâu allweddol wedi ymddangos, ynglŷn â ffactorau sy'n ymddangos eu bod yn gwneud gwahaniaeth pwysig i allu ariannol plant a phobl ifanc. Amlinellir y rhain ar y tudalennau canlynol.

Addysg ariannol yn y cartref

Effeithir ar allu ariannol plant gan y dewisiadau y mae rhieni yn eu gwneud ynglŷn â sut y maen nhw'n dysgu hwy am arian, a'r rhyddid a'r cyfrifoldebau y maen nhw'n caniatáu iddynt eu cael. O'u cymharu ag ardaloedd datganoledig eraill, mae'r darlun cyffredinol yng Nghymru yn adlewyrchu'n agos y sefyllfa ledled y DU, gydag ystod debyg o ganlyniadau ar draws nifer o destunau.

Rhoi'r grym i blant

Mae rhieni yn caniatáu i'w plant wneud penderfyniadau ac i ddysgu o gamgymeriadau, mewn ffyrdd sy'n briodol i'w hoed, yn gysylltiedig â'u datblygiad gallu ariannol. Yn y DU canfuwyd bod plant yn penderfynu ar y cyd gyda rhiant yn gysylltiedig â gallu ariannol cadarnhaol. Y neges gryfaf sy'n ymddangos yw bod plant yn gwneud yn waeth ar nifer fawr o fesurau ariannol os yw rhieni yn penderfynu drostynt sut i wario'u harian.

Yn ogystal, mae plant yn gwario arian ar-lein a rhaid iddynt fod yn ymwybodol ac yn barod am y risgiau sy'n cyd-fynd â hyn, yn enwedig o ystyried pa mor gyffredin yw hysbysebu ar-lein. Mae mwy na phedwar o bob deg (42%) o'r rhai rhwng 7 a 17 oed yng Nghymru wedi talu am bethau ar-lein, boed hynny gyda'u harian eu hunain neu arian eu rhieni ac fe gynyddodd hyn gydag oed.

Arian rheolaidd a chynilo rheolaidd

Rydym hefyd wedi gweld o'n canlyniadau bod gan blant sy'n derbyn arian yn rheolaidd ymgysylltiad ariannol gwell. Maen nhw'n fwy tebygol o fod â chyfrif banc, i benderfynu drostynt eu hunain sut y maen nhw'n gwario eu harian a pha un a ydynt yn cynilo unrhyw ran ohono, ac i edrych o gwmpas am y gwerth gorau. Mae hyn yn rhoi achos dros annog rhieni i ddarparu arian poced rheolaidd i'w plant, waeth faint yw'r swm a roddir. Ymddengys bod caniatáu i blant a phobl ifanc brofi derbyn arian yn rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu gallu i'w reoli.

Ledled y DU, mae gan blant sy'n cynilo arian 'bob tro' agweddau mwy cadarnhaol, megis teimlo'n hyderus ac yn rheoli eu materion ariannol. Mae rhai ymddygiadau negyddol hefyd yn gysylltiedig: mae perthynas rhwng peidio â chadw llygad ar yr arian, a pheidio â chynilo.

Yn fwy cyffredinol, nid oes digon o blant yn cynilo yn rheolaidd; gellir gwneud mwy i ddatblygu arferion cynilo yn gynnar yn eu bywyd. Mae mwyafrif helaeth plant Cymru (93%) wedi cael peth profiad o gynilo, ond mae angen pwysleisio pwysigrwydd cysondeb. Mae'n ymddangos bod plant yn deall y cysyniad bod cynilo arian yn beth da, ond mae trosi hyn i ymddygiad yn parhau yn faes allweddol i fynd i'r afael ag ef.

Yn yr un modd, mae'n ymddangos bod addysg sy'n annog plant i wneud cynlluniau a chadw atynt, a chadw llygad ar eu harian, yn parhau yn feysydd i'w datblygu i lawer o blant.

Dechrau'n gynnar

Mae plant yng Nghymru yn dechrau dangos dealltwriaeth o gysyniadau megis gwerth arian yn gynnar iawn, ac fel arfer mae gwybodaeth, sgiliau a galluoedd ariannol yn tyfu gydag oed, gyda chynnydd sylweddol mewn dealltwriaeth yn 6 oed, ac 16-17 oed. Mae'n bosibl bod hyn wedi'i gysylltu â datblygiadau gwybyddol ac effaith amgylcheddau newidiol plant.

Serch hynny, mae llawer o rieni yng Nghymru yn ofalus am drafod arian gyda'u plant a rhoi cyfrifoldeb iddynt dros arian yn gynnar. Yn eu barn hwy dylai addysg ariannol plant ddechrau ychydig yn hwyrach yn eu plentyndod nac y mae'r adroddiad hwn yn ei awgrymu; mae rhieni sy'n credu y dylid rhoi ystod o brofiadau ariannol i blant dan 8 oed yn y lleiafrif.

Gan hynny mae cyfleoedd i ailadrodd y gall plant ddechrau dysgu am arian cyn 7 oed, ac y gall rhieni chwarae rôl allweddol wrth ddylanwadu ar sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth datblygol plant. Mae ein gwaith ar draws Cymru gyda'r sefydliad 'Plant yng Nghymru' a Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn cyflenwi'r peilot, Siarad, Dysgu, Gweithredu yn anelu at helpu rhieni i feithrin hyder wrth helpu eu plant mor ifanc â thair oed. Yn ychwanegol mewn ysgolion yng Nghymru, ceir cydnabyddiaeth bod hyn yn wir gyda Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd Cyfnod Sylfaen[1] (2015) gan gynnwys 'rheoli arian' yn cychwyn gyda phlant oed meithrin gyda'r canlyniad i blant ddangos ymwybyddiaeth o ddiben arian trwy chwarae rôl.

1. *Cwricwlwm Cymru: Fframwaith Cyfnod Sylfaen* (Llywodraeth Cymru, 2015)

Gan hynny, mae cyfleoedd i adeiladu arnynt: er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o blant wedi gweld eu rhieni yn defnyddio arian ac wedi cael profiad o dalu am bethau mewn siopau. Gellid defnyddio'r sefyllfaoedd hyn i helpu i gynllunio ymarferion ymarferol a hawdd eu gweithredu ar gyfer ymyraethau gyda rhieni – a fydd yn gyfarwydd ac yn gyfforddus i'r rhieni sydd eisoes wedi rhoi cynnig arnynt, ac a allai helpu i ddangos norm cymdeithasol i'r rhieni hynny sy'n ymgysylltu llai wrth addysgu plant iau am arian.

Rhieni fel modelau rôl

Awgryma ein harolwg bod mwyafrif helaeth y rhieni yng Nghymru yn credu ei bod hi'n bwysig addysgu eu plant am arian, ac y bydd eu hymddygiad yn effeithio ar eu plant pan fyddant yn tyfu'n hŷn. Maen nhw'n adnabod bod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae, ac mae ein harolwg yn ailadrodd canfyddiadau o ymchwil arall bod plant yn gweld eu rhieni fel y brif ffynhonnell, ar un fwyaf defnyddiol, o gyngor am arian.

Mae llawer yn gweld eu hunain fel modelau rôl da. Serch hynny, mae llawer llai yn hyderus wrth drafod arian gyda'u plant. Mae llawer o rieni yn sgorio'n uchel ar ddangosyddion gallu ariannol gwael, neu yn profi heriau gyda'u hamgylchiadau ariannol eu hunain.

Mae hyn yn awgrymu y gallai fod cyfleoedd i edrych ar ymyraethau penodol sy'n darparu cefnogaeth i rieni i adeiladu ar eu gallu ariannol eu hunain ac i geisio eu helpu i addysgu eu plant am arian. Gallai ymddygiad modelau rôl, a dysgu gyda'i gilydd, fod yn rhan o'r ymyraethau hyn.

Mae adroddiad Estyn 2017[2] yn dweud wrthym fod rhai ysgolion yng Nghymru eisoes yn gweithio mewn partneriaethau defnyddiol i ddatblygu dealltwriaeth a sgiliau ariannol rhieni ynghyd â disgyblion. Mae cyfleoedd hefyd i gysylltu mwy ag adnoddau cymorth rhianta, megis 'Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref'[3] a gwefan 'Magu plant – rhowch amser iddo'[4].

Addysg ariannol mewn ysgolion

Dechrau'n gynnar mewn ysgolion hefyd

Mae ein canfyddiadau wedi ailadrodd pwysigrwydd addysg ar oedran ifanc. Mae gan fwyafrif helaeth o blant arian o 4 oed o leiaf, gyda nifer wedi cynilo peth arian. Mae llawer o blant o oed ysgol gynradd hefyd wedi dechrau profi ffyrdd mwy cymhleth o ddefnyddio arian, megis prynu ar-lein. Mae hyn yn awgrymu y byddai plant ysgol gynradd yn barod i dderbyn ystod eang o wersi am arian. Yng Nghymru mae 'Rheoli Arian' yn rhan o Fframwaith Cyfnod Sylfaen Llythrennedd a Rhifedd sy'n dechrau i blant oed meithrin ac yn cynnwys plant hyd at flwyddyn 2.

Er bod addysg ariannol (nid yn unig fel rhan o Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd) ar gwricwlwm ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru, 35% yn unig o blant rhwng 7 a 17 oed sy'n dweud eu bod wedi dysgu am reoli arian yn yr ysgol neu'r coleg, sydd islaw cyfartaledd y DU. Efallai nad yw plant yn cofio derbyn gwersi o'r fath, neu nad ydynt yn eu cysylltu â rheolaeth ariannol yn benodol.

Mae'n werth nodi bod y dadansoddiad hwn wedi'i seilio ar yr hyn mae plant yn ei gofio ac efallai y bydd rhai a wnaeth dderbyn addysg ariannol yn yr ysgol ond nad ydynt yn ei gofio, neu yn ei adnabod fel hynny. Yn ychwanegol dim ond ym mlwyddyn academaidd 2015/16 y cafodd TGAU Mathemateg - Rhifedd newydd sy'n cynnwys canlyniadau addysg ariannol a chan hynny efallai nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y canlyniadau hyn.

2. *Rheoli arian: Addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru* (Estyn, 2017)
3. http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/parents/education-begins-at-home/
4. http://giveittime.gov.wales/

Addysg bywyd go iawn

Mae'r un canran o'r rhai rhwng 16 i 17 oed â'r rhai rhwng 7 a 11 oed yn adrodd eu bod wedi derbyn addysg ariannol. Mae hyn yn bwysig oherwydd tra bod ein canlyniadau arolwg wedi dangos cynnydd mewn annibyniaeth a gwybodaeth ariannol yn 16 i 17 oed, maen nhw hefyd yn dangos rhai canfyddiadau pryderus am barodrwydd i fod yn oedolyn.

Er enghraifft, erbyn 16 oed, mae tri o bob deg o bobl ifanc yn derbyn arian o waith y tu allan i'r cartref. Eto i gyd, nid oes gan bron i dri o bob deg o'r rhai 16 i 17 oed (28%) gyfrif cyfredol, ac nid oes gan un o bob wyth (12%) gyfrif banc o gwbl (dim cyfrif cynilo na chyfredol). O blith y rheini sydd â chyfrif, nid yw 28% wedi adneuo arian, ac nid yw 43% yn gofalu am eu manylion bancio eu hunain.

Yn yr un modd, 42% yn unig o'r rheini sy'n 16 i 17 oed sy'n gallu darllen slip cyflog yn gywir ac mae 11% yn methu adnabod yn gywir faint oedd mewn cyfrif banc wrth edrych ar gyfriflen banc.

Mae cyfle i addysg ariannol mewn ysgolion wneud mwy i baratoi plant ar gyfer yr heriau ymarferol y byddant yn eu hwynebu wrth reoli eu harian. Fe allai TGAU Mathemateg-Rhifedd Cymru newydd gefnogi pobl ifanc tuag at y canlyniad hwnnw.

Bregusrwydd

Mae canfyddiadau'n harolwg wedi amlygu rhai dangosyddion cychwynnol o grwpiau penodol a allai fod ag anghenion gallu ariannol unigryw neu a allai fod yn agored i allu ariannol gwaeth yn gyffredinol. Er bod gwaith pellach i'w wneud i adnabod grwpiau eraill a allai fod yn fregus hefyd, mae'n amlwg o'r dadansoddiad cychwynnol y gallai plant o gartrefi incwm isel, plant gyda hyder ariannol isel, a phlant heb fawr o brofiad o reoli arian, fod yn arbennig o fregus.

Cartrefi incwm isel

Mae incwm yn ffactor yng ngallu ariannol oedolion, a drwy gydol yr ymchwil hwn, mae byw mewn cartrefi incwm isel wedi'i gysylltu hefyd â chanlyniadau gallu ariannol gwaeth i blant. Er enghraifft, mae plant mewn cartrefi incwm isel yn fwy tebygol o deimlo nad ydynt yn gallu gwneud gwahaniaeth i'w sefyllfa ariannol (25%) na'r rheini mewn cartrefi incwm uchel (15%).

Mae plant mewn cartrefi incwm uwch yn debygol o dderbyn mwy o arian ac maen nhw hefyd yn fwy tebygol o gael swyddi y tu allan i'r cartref, wrth iddynt dyfu'n hŷn. Gallai plant mewn cartrefi incwm isel gan hynny fod angen mwy o gefnogaeth i sicrhau eu bod yn datblygu gallu ariannol i'r un lefel â phlant o gartrefi gydag incymau uwch.

Serch hynny, mae'n hanfodol nodi y bydd gan lawer o deuluoedd a phlant o gartrefi incwm isel yng Nghymru lawer o gryfderau ariannol i adeiladu arnynt. Yn benodol, nid yw hyder wrth reoli arian wedi'i effeithio gan incwm.

Dylai ymyraethau gael eu cynllunio i weithio gyda, a dylanwadu os yn bosibl, ar y sefyllfaoedd unigol y gallai teuluoedd sy'n byw gydag incymau isel eu hwynebu. Dylid cynnig cefnogaeth mewn ffyrdd sy'n cydnabod realiti sut y mae rhieni mewn cartrefi incwm isel yn rhyngweithio gydag arian o flaen eu plant.

Hyder ariannol isel

Mae perthynas rhwng hyder plant wrth reoli arian a gwybodaeth, agweddau ac ymddygiadau ariannol cadarnhaol yn thema arall i godi o ymchwil y DU. Er nad yw maint y sampl yng Nghymru yn ddigon mawr i edrych ar y manylion hyn, mae'r ddysg hon yn debyg o gael ei chymhwyso ar draws y cenhedloedd.

Ledled y DU, mae hyder plant wrth reoli arian yn gysylltiedig â chanlyniadau cadarnhaol eraill gan gynnwys: amlder a swm y cynilion; cadw llygad ar faterion ariannol; cysylltiad â dewisiadau am arian; gofal wrth fenthyca; teimlo bod materion ariannol dan reolaeth; cael mwy o nodau bywyd; edrych o gwmpas; a chael cwestiynau am gynnyrch a chysyniadau ariannol yn gywir. Mae angen ymchwil pellach i ddeall manylion y berthynas na allwn ar hyn o bryd fod yn sicr o gyfeiriad y perthnasau hyn.

Cwestiynau sy'n weddill ac ymchwil pellach

Mae nifer o gwestiynau y mae dadansoddiad o'r arolwg hwn heb fynd i'r afael â hwy, a chanfyddiadau sy'n gwarantu ymchwil pellach. Gellir mynd i'r afael â hyn trwy ddadansoddiad pellach ac edrych yn ddwfn ar ddata'r arolwg. Bydd angen ymchwilio i rai trwy ymchwil a dadansoddiad newydd.

Ymhlith meysydd i'w hymchwilio ymhellach ledled y DU yw'r canlynol:

- **Y berthynas rhwng ymddygiad rhiant ac agweddau a gallu ariannol plant.** A yw'n gwneud gwahaniaeth os yw rhieni yn trafod arian gyda'u plant? A yw rhieni sy'n dangos dangosyddion o allu ariannol da yn dueddol o gael plant sy'n gwneud hynny hefyd? Pa ffactorau demograffig sy'n gwneud gwahaniaeth?
- **Effaith cyfansoddiad a materion ariannol y teulu.** A yw plant sy'n byw mewn cartrefi sy'n profi anawsterau ariannol yn dueddol o fod â gallu ariannol gwaeth? Sut y mae gallu ariannol yn gwahaniaethu ymhlith plant o gartrefi gyda strwythurau teuluol gwahanol?
- **Grwpiau bregus allweddol.** Pa fath o nodweddion y mae plant gyda lefelau isel o allu ariannol yn eu harddangos – er enghraifft, a oes gan blant sydd â lefelau is o sgiliau cymdeithasol ac emosiynol allu ariannol gwaeth? A oes gan blant gyda nodweddion penodol, megis anabledd, neu os ydynt yn ofalwr ifanc, lefelau gwahanol o allu ariannol i blant yn gyffredinol?
- **Cyfeiriad y berthynas rhwng gallu a hyder ariannol.** A yw gallu ariannol yn arwain at hyder ariannol neu a yw'n gweithio i'r gwrthwyneb? Fe allai hefyd fod yn ddiddorol archwilio ymhellach y diffyg perthynas yr ydym wedi'i ddangos rhwng incwm a hyder isel.

Cyflwyniad

Cefndir

Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol sy'n arwain wrth gydlynu cyflenwi Strategaeth Gallu Ariannol i Gymru sy'n gysylltiedig â Strategaeth y DU a'i mewnosod i Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru. Mae Strategaeth Gallu Ariannol Cymru yn anelu at wella gallu pobl i reoli arian yn well, a hynny o ddydd i ddydd a thrwy ddigwyddiadau sylweddol mewn bywyd, a'u gallu i ddelio â chyfnodau o anhawster ariannol. Er mwyn cefnogi hyn, rydym eisiau sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn derbyn yr addysg ariannol sydd ei angen arnynt i'w helpu i ddod yn oedolion galluog yn ariannol.

Gallai gwell gallu ariannol adeiladu ffactorau amddiffynnol a chadernid i blant yng Nghymru, a fydd yn helpu i fynd i'r afael â lefelau isel o allu ariannol a lles ymhlith oedolion.[5] Ond fe fydd yn gwneud mwy na hynny. Mae gallu ariannol oedolion, i raddau helaeth, o ganlyniad i'r hyn sy'n cael ei weld, ei ddysgu a'i brofi yn ystod plentyndod ac yn ystod llencyndod. Bydd y strategaeth yn cefnogi'r genhedlaeth gyfredol o blant a phobl ifanc, i'w helpu i ddod yn oedolion galluog yn ariannol i'r dyfodol.

Cefnogir hyn gan ymchwil a ariennir gan Joseph Rowntree Foundation[6] a ganfu nad yw plant sy'n cael eu magu mewn cartrefi incwm isel yn gwneud cystal ar ystod o ganlyniadau ehangach, gan gynnwys datblygiad gwybyddol, iechyd corfforol, a datblygiad cymdeithasol ac ymddygiadol. Mae hyn yn awgrymu potensial gallu ariannol i gefnogi ac adnabod canlyniadau ar gyfer dau yrrwr allweddol ar bolisi Cymru, sef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Fel rhan o'n gwaith, fe wnaethom gomisiynu Arolwg Gallu Ariannol Plant a Phobl Ifanc y DU 2016, sy'n cynnwys sampl cynrychioladol ar wahân ar gyfer Cymru. Mae nifer o heriau yn gysylltiedig â holi plant. Mae'n angenrheidiol sicrhau a chofnodi caniatâd rhieni; sicrhau y bydd plant yn deall ac yn gallu ateb eich cwestiynau; ac addasu eich cwestiynau fel eu bod yn briodol i lefel datblygiad yr amryw grwpiau oed y dymunwch eu targedu. Ar gyfer testunau megis gallu ariannol a rheolaeth ariannol, mae heriau ychwanegol. Nid yn unig y mae plant yn annhebygol o wybod y wybodaeth berthnasol, megis incwm cartref, ond hefyd mae'n debyg y bydd ymddygiad ac agweddau plant tuag at arian wedi'u dylanwadu gan rai eu rhieni. I gael darlun llawn, mae angen i chi felly holi rhieni a phlant gyda'i gilydd.

Mae Arolwg Gallu Ariannol Plant a Phobl Ifanc y DU 2016 yn bodloni'r heriau hyn ar eu pennau a, chan hynny, dyma'r cyntaf o'i fath: arolwg cynrychioladol yn genedlaethol o wybodaeth, agweddau ac ymddygiadau ariannol plant a phobl ifanc rhwng 4 a 7 oed a'u rhieni, sy'n byw yn y DU. Fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ar ganfyddiadau'r DU cyfan ym mis Mawrth 2017.[7] Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar ganfyddiadau o'r cyfweliadau a gynhaliwyd gyda phlant a rhieni yng Nghymru.

Amcanion yr arolwg oedd:

- cynnig gwaelodlin i fesur gallu ariannol ymhlith plant a phobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr
- darparu darlun cenedlaethol o allu ariannol ymhlith plant a phobl ifanc
- deall yr hyn sy'n gyrru gallu ariannol da a gwael ymhlith plant, gan gynnwys rôl addysg ariannol o fewn teuluoedd.

Nod yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg o ganfyddiadau cychwynnol yr arolwg, a rhai o'r prif themâu sydd wedi ymddangos o fewn Cymru, ac yn fwy cyffredinol ledled y DU. Rydym yn disgwyl y bydd adroddiadau pellach a fydd yn archwilio agweddau at ddata yn fanylach.

5. *Strategaeth Gallu Ariannol y DU* (Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2015) – gweler fincap.org.uk am fanylion.
6. *A yw Arian yn Effeithio ar Ganlyniadau Plant: Y Diweddaraf* (CASE, LSE, JRF, 2017)
7. *Gallu Ariannol Plant, Phobl Ifanc a'u Rhieni* (Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2017)

Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r canlynol:

Pennod 1 – Sut y mae plant yn cael mynediad at arian ac yn ei ddefnyddio

- O ble y mae plant yn cael eu harian a sut y maen nhw yn ei gynilo a'i reoli
- Pa gynnyrch ariannol y mae plant yn eu defnyddio, a phwy sydd yn eu dewis
- Pwy sy'n penderfynu beth y mae plant yn ei wneud gyda'u harian, pa un a ydynt yn ei wario neu ei gynilo, a pha brofiadau sydd ganddynt wrth dalu am bethau

Pennod 2 – Beth y mae plant yn ei feddwl am arian

- Beth yw eu barn am wariant, cynilo a benthyca
- Beth yw eu barn ar wneud dewisiadau a chyfaddawdu
- A yw plant yn teimlo'n hyderus ac yn gallu rheoli eu harian
- Nodau ariannol a bywyd a dyheadau plant

Pennod 3 – Beth y mae plant yn ei wybod am arian

- Pa mor dda y mae plant yn deall cynnyrch, cysyniadau a geirfa ariannol, a pha mor dda y gallant gymhwyso sgiliau rhifedd i sefyllfaoedd ariannol
- Pa mor dda y mae plant yn deall bod gan arian werth a bod yn rhaid i chi wneud dewisiadau
- I ba raddau gall plant gynllunio a chyllidebu eu harian a chael gwerth da am arian
- Pa mor dda y mae plant yn deall y rôl y mae arian yn ei chwarae mewn cymdeithas, a beth sy'n rhaid i oedolion dalu amdano

Pennod 4 – Sut y mae plant yn dysgu am arian

- Ble y mae plant yn cael cyngor ac arweiniad am arian, a rôl eu rhieni[8]
- Sut y mae agweddau ac ymddygiad rhieni yn effeithio ar eu plant
- Rôl ysgolion a cholegau

Drwy gydol yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio'r term 'plant' yn gryno ar gyfer plant a phobl ifanc, ac rydym yn defnyddio'r term 'rhieni' yn gryno ar gyfer rhieni, gofalwyr neu warcheidwaid.

8. Defnyddir y term 'cyngor' yma i ddangos cyngor yn gyffredinol, ac nid cyngor ariannol wedi'i reoleiddio.

Methodoleg

Mae Arolwg Gallu Ariannol Plant a Phobl Ifanc 2016 yn arolwg cynrychioladol yn genedlaethol o gyfanswm o 4,958 o blant a phobl ifanc rhwng 4 a 17 oed, a'u rhieni, sy'n byw yn y DU.

Cynhaliwyd yr astudiaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol gan BMG research, gan ddefnyddio ar-lein (69%) a CAPI (holi personol wedi'i gynorthwyo gan gyfrifiadur) (31%) i holi 4,141 o blant rhwng 7 a 17 oed, (gyda phob un yn cael eu holi gydag un o'u rhieni). Fe wnaethom hefyd gynnal 817 o gyfweliadau ar-lein yn unig gyda phlant rhwng 4 a 6 oed (eto wedi'u holi gydag un o'u rhieni). Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys holi hwb a gynhaliwyd ym mhob un o'r cenhedloedd datganoledig (1,124 o gyfweliadau hwb i gyd) er mwyn sicrhau sylfaen gadarn i'w ddadansoddi. Mae'r un peth yn wir am y rhai 15 i 17 oed, lle cynhaliwyd cyfweliadau hwb eto (1,026 o gyfweliadau hwb i gyd). Ar gyfer Cymru yn benodol, cynhaliwyd 117 o gyfweliadau gyda'r rhai rhwng 4 i 6 oed, a 476 gyda rhai rhwng 7 a 17 oed.

Datblygwyd dau holiadur, un ar gyfer y rhai rhwng 7 a 17 oed a'u rhieni, ac un ar gyfer y rhai rhwng 4 a 6 oed a'u rhieni. Roedd y ddau arolwg yn defnyddio set graidd gyffredin o gwestiynau ymhlith rhieni i roi arwydd o allu ariannol rhieni a'r cartref yn gyffredinol, ynghyd ag agweddau rhieni tuag at reolaeth ariannol. Serch hynny, roedd cwestiynau a ofynnwyd i blant a phobl ifanc yn ymrannu yn sylweddol ar draws grwpiau oed. Gofynnwyd rhai cwestiynau i blant a'u rhieni, yn y ddau arolwg. Ni holwyd yr holl gwestiynau i bob plentyn a holwyd oherwydd lefelau amrywiol eu datblygiad gwybyddol a disgwyliadau o'r hyn y maen nhw'n debyg o fod wedi'i brofi. Drwy gydol yr adroddiad, dengys nodiadau ar waelod siartiau rhif y cwestiwn gyda'r nodiad 'CYP' os atebodd plant neu 'P' os atebodd rhieni.

Er mwyn sicrhau bod y canfyddiadau yn adlewyrchu'n gywir poblogaeth plant a phobl ifanc, cafodd y data ei bwysoli i gynrychioli dadansoddiad o'r boblogaeth plant 4, 5-6, 7-11, 12-15 a 16-17 oed o fewn pob cenedl (Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon). Y newidynnau a ddefnyddiwyd ar gyfer pwyso oedd oed, rhyw, rhanbarth, ethnigrwydd, amddifadedd incwm ardal leol y cartref, ac a oedd y cartref mewn lleoliad trefol neu wledig.

Newidynnau dadansoddi

Drwy gydol yr adroddiad, mae'r canfyddiadau wedi'u dadansoddi gan nifer o amrywiolion diddordeb, megis oed neu incwm y cartref. Ble y mae ystadegyn yn cael ei ddadansoddi gan un o'r newidynau hyn ac y dywedir bod y ffigwr a roddir y mwyaf neu'r lleiaf, mae hyn yn cyfeirio at wahaniaeth sylweddol. Yn nhermau ystadegol, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng dau ganlyniad ymchwil yn wahaniaeth sy'n ddigon mawr ei fod yn hynod o debygol na gododd trwy siawns. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau sy'n perthyn yn benodol i Gymru, er ble fo'n berthnasol mae cymariaethau perthnasol yn cael eu gwneud gyda chanfyddiadau'r DU cyfan.

Mae sampl Cymru yn disgyn o fewn y sampl ar gyfer astudiaeth mwy y DU cyfan. Cynhaliwyd hwb sampl yng Nghymru i'n caniatáu ni i allu edrych ar Gymru yn gyffredinol ac i'n helpu ni i ddeall sut y mae'r cyd-destun cyffredinol rhwng cenhedloedd yn gwahaniaethu. Serch hynny, nid yw hyn yn caniatáu i ni edrych ar doriadau dadansoddi llai o fewn Cymru ac ni chafodd yr arolwg ei gynllunio i wneud hynny.

Mewn enghreifftiau yn yr adroddiad ble y mae meintiau sampl yn rhy fach yng Nghymru i ddadansoddi ar wahân (maint sylfaen o lai na 60), ble y mae canfyddiad wedi'i adrodd fe'i gwneir ar lefel y DU a chyfeirir at hyn yn y testun. Ni chyfeiriwyd at grwpiau gyda maint sylfaen o lai na 60 o fewn Cymru, a rhwng 60 a 100, cyfeiriwyd at y maint sylfaen yn y testun, neu islaw unrhyw graff cyfatebol ble fo'n briodol.

Mae'r holl ffigurau yn yr adroddiad hwn yn benodol i Gymru oni bai y cyfeirir yn benodol at y DU yn gyffredinol[9].

9. Drwy gydol y dadansoddiad, mae atebion 'ddim yn gwybod' ac 'wedi gwrthod' wedi'u heithrio. Mae lleiafrif o gwestiynau wedi ennyn cyfran anarferol o uchel o atebion 'ddim yn gwybod', er enghraifft, ble y mae plant yn derbyn problem rifedd fel rhan o'r holiadur. Yn yr achosion hyn, mae'r 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad gan ei fod yn nodi pa mor anodd oedd hi i'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwnnw. Os yw hyn yn wir, mae cynnwys 'ddim yn gwybod' wedi'i nodi'n glir ar y tabl neu'r siart.

Prif newidynnau dadansoddi yw:

Oed

Mae edrych ar y canlyniadau yn ôl oed yn rhoi arwydd i ni o sut y mae plentyn yn newid dros amser. Ble fo'n bosibl mae cwestiynau wedi'u hadrodd ar gyfer pob grŵp oed. Mewn rhai achosion, er bod y cwestiwn yn debyg, mae'r testun a'r fformat wedi'u haddasu ar gyfer y rhai rhwng 4 a 6 oed. Mae'r grŵp oed sy'n ateb y cwestiwn wedi'i nodi ar waelod y siart.

Incwm y Cartref

Gofynnwyd nifer o gwestiynau demograffig i rieni, gan gynnwys incwm y cartref. Mae incwm cartref wedi'i gysylltu'n gryf â mesurau gallu ariannol oedolion felly roedd yn debygol o fod yn ffactor pwysig yn agweddau, credoau ac ymddygiad ariannol plant.

Rhannwyd cartrefi yn grwpiau incwm fel a ganlyn:

- Incwm isel: £17,500 neu lai
- Incwm cymedrol £17,500 i £49,999
- Incwm uchel: £50,000 neu fwy

Arian rheolaidd neu afreolaidd

Daw hyn o'r cwestiwn 'Ym mha un o'r ffyrdd canlynol y mae plentyn yn derbyn arian ei hun?' ar gyfer y rhai 4 i 6 oed ac o'r cwestiwn 'O ble'r ydych chi'n cael eich arian?' ar gyfer y rhai 7 i 17 oed.

Ymhlith yr arian rheolaidd y mae arian poced neu arian o swydd. Mae popeth arall yn cael ei ystyried yn arian afreolaidd. Gallai plant sy'n cael eu hystyried yn derbyn arian rheolaidd fod yn derbyn arian o ffynonellau afreolaidd hefyd ond mae plant nad ydynt yn derbyn naill ai arian poced neu arian o swydd, ond yn derbyn mathau eraill o arian, megis arian ar ddyddiau allan neu achlysuron arbennig, yn cael eu hystyried yn derbyn arian afreolaidd.

Nid oedd canran fechan o blant yn derbyn unrhyw arian eu hunain o gwbl ac ni chawsant eu dosbarthu i'r naill grŵp neu'r llall.

Cyfrifoldeb dros benderfynu ar sut i wario arian eu hunain

Ledled y DU, disgwyliwn y byddai gradd y cyfrifoldeb y mae plant yn eu derbyn i wneud penderfyniadau am eu harian eu hunain yn cael effaith ar eu hagweddau, credoau ac ymddygiad ariannol. Mae wedi'i rannu yn:

- Rhieni neu ofalwyr yn penderfynu
- Plentyn yn penderfynu
- Plentyn a rhiant/gofalwr yn penderfynu gyda'i gilydd

Roedd y rhai rhwng 7 a 17 oed yn ateb y cwestiynau hyn eu hunain ac roedd rhieni'r rhai 4 i 6 oed yn ateb ar eu rhan. Er bod cyfrifoldeb yn gynhenid wedi'i gysylltu ag oed, yr ydym yn dal i sylwi ar wahaniaethau o fewn grwpiau oed. Oherwydd y seiliau sampl bychain, nid adroddir ar y grwpiau hyn yng Nghymru.

Cynilo

Ledled y DU, gwyddom fod ymroi i gynilo yn ffactor bwysig o fewn gallu ariannol oedolion.[10]

Yn yr arolwg grŵp oed 7 i 17 oed, gofynnwyd am amlder y cynilo a gofynnwyd hyn i'r rhai 8 i 17 oed yn unig, gan fod tystiolaeth ei bod hi'n anos i'r rhai 7 oed ddeall cysyniad amlder.[11]

Rhannwyd y rhai 8 i 17 oed i'r grwpiau canlynol:

- Cynilo bob tro
- Cynilo rhan fwyaf o'r amser
- Cynilo weithiau
- Byth yn cynilo

Yn gyffredinol yn yr adroddiad hwn, yr eithafoedd 'bob tro' a 'byth' yn unig sy'n cael eu dyfynnu. Nid yw hyn yn awgrymu nad oes gwerth mewn cynilo 'rhan fwyaf o'r amser'; dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o ddangos effaith ymddygiad cynilo.

Ar gyfer y rhai 4 i 6 oed, adroddwyd am hyn hefyd gan y plentyn ac fe'i rhannwyd yn:

- Rydw i'n hoffi cynilo fy arian
- Rydw i'n hoffi gwario fy arian

Oherwydd y seiliau sampl bychain, nid yw'r grwpiau hyn yn cael eu hadrodd o fewn Cymru.

Hyder wrth reoli arian

Daw hyn o'r cwestiwn: 'Pa mor hyderus ydych chi'n ei deimlo yn rheoli'ch arian? Atebwch ar raddfa o 0 i 10, ble y mae 0 yn 'ddim yn hyderus o gwbl' a 10 yn 'hyderus iawn'. Gofynnir hyn i'r rhai 12 oed a hŷn gan y byddai'n anodd i blant iau ddeall neu farnu lefel eu hyder. Rhennir yr atebion yn:

- Hyderus: 8-10
- Y naill na'r llall: 4-7
- Ddim yn hyderus: 0-3

Drwy gydol yr adroddiad dim ond yr eithafoedd sy'n cael eu dyfynnu a chyfeirir atynt yn 'hyderus' (8-10) a 'ddim yn hyderus' (0-3). Gofynnir y cwestiwn i rieni hefyd ond, er mwyn cadw'r dadansoddiad yn syml ac yn hawdd ei ddeall, nid yw'n cael ei ddefnyddio fel newidyn ar gyfer dadansoddi yn yr adroddiad hwn. Fe allai gael ei ddefnyddio ar gyfer dadansoddiad pellach yn ddiweddarach.

Oherwydd y seiliau sampl bychain, nid adroddir ar y grwpiau hyn o fewn Cymru, felly mae unrhyw gyfeiriad at ganlyniadau yn ôl hyder ariannol yn cyfeirio at ganlyniadau'r DU yn unig.

10. *Mesur gallu ariannol – adnabod y conglfeini* (Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2016). Mae ymroi i gynilo yn cynnwys: amlder y cynilo; nifer y mathau o wariant disgwyliedig y cynilir ar ei gyfer; nifer y mathau o wariant annisgwyl y cynilir ar ei gyfer.
11. *Ffurfio Arferion a Dysgu mewn Plant Ifanc* (y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2013).

Pennod 1: Sut y mae plant yn cael mynediad at arian ac yn ei ddefnyddio

Cryfderau i adeiladu arnynt:

- Mae bron pob plentyn yng Nghymru (99% o'r rhai 7 i 17 oed a 91% o'r rhai 4 i 6 oed) yn adrodd bod ganddynt o leiaf peth arian eu hunain.
- Mae gan fwyafrif helaeth plant yng Nghymru 8 i 17 oed brofiad o gynilo arian (93% o'r rheini sydd ag arian).
- Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n hŷn na 7 yn chwarae rhan â sut y mae eu harian yn cael ei gynilo (88%) neu'i wario (96%), naill ai drwy benderfynu eu hunain neu gyda'u rhieni. Mae hyn yn cynyddu gydag oed.
- Mae dros ddau draean (69%) o'r rhai 7 i 17 oed yn derbyn arian poced.
- Mae tri o bob 10 (30%) o'r rhai 16 i 17 oed yn derbyn arian o waith y tu allan i'r cartref.
- Mae llawer o blant yn profi talu am bethau o oed cynnar, gyda 76% o'r rhai 4 i 6 oed wedi talu am bethau mewn siopau.

Mae angen gwaith:

- Nid oes patrwm clir gydag amlder y cynilo yn erbyn oed.
- Nid oes gan bron i dri o bob deg o'r rhai 16 i 17 oed (28%) gyfrif cyfredol (sy'n sylweddol is na'r DU), nid oes gan ddau draean (64%) gyfrif cynilo, ac nid oes gan bron i un o bob wyth (12%, sy'n is na'r DU yn gyffredinol) gyfrif banc o gwbl (dim cyfrif cynilo neu gyfredol). O blith y rheini nad oes ganddynt gyfrif, nid yw 28% erioed wedi rhoi arian ar gadw, nid yw 37% erioed wedi bod i fanc, ac nid yw 43% yn gofalu am eu manylion banc eu hunain.
- Plant 7 i 17 oed mewn cartrefi incwm isel yng Nghymru sydd lleiaf tebygol o dderbyn arian trwy bron i unrhyw lwybr, gan gynnwys arian poced ac yn gweithio y tu allan i'r cartref.
- Nid yw tua un o bob saith (14%) o blant 8 i 17 oed o deuluoedd incwm isel (sy'n derbyn arian) erioed wedi cynilo eu harian.
- Yn gyffredinol, dywedodd 19% o'r rhai 14 i 17 oed nad ydynt yn cadw llygad ar eu harian, rhan bwysig o gyllidebu a chynilo. Roedd 30% pellach dim ond yn cadw trefn yn eu pennau.
- Mae plant nad ydynt yn derbyn arian rheolaidd yn llai tebygol o gael cyfrifon banc, yn gysylltiedig â dewis eu cynnyrch bancio a phecyn ffôn symudol, cadw llygad ar eu harian, neu wneud eu penderfyniadau gwario eu hunain.

Rheoli arian o ddydd i ddydd

O ble y daw arian y plant?

Mae plant yn derbyn eu harian o amrywiaeth o ffynonellau. Mae mwyafrif y plant ar draws pob un o'r ystodau oed yn derbyn o leiaf peth arian eu hunain. Maen nhw'n derbyn yr arian yn bennaf adeg pen-blwyddi, Nadolig ac achlysuron arbennig, neu fel arian poced (Siart 1)[12]. Dim ond 1% o'r rhai 7 i 17 oed a 9% o'r rhai 4 i 6 oed nad ydynt yn derbyn arian. Yn gyffredinol, mae 76% o'r rhai 7 i 17 oed a 44% o'r rhai 4 i 6 oed yn derbyn arian rheolaidd.

Yr oedran brig i dderbyn arian poced yw 12-15. Uwchlaw hyn, mae plant yn fwy tebygol o fod yn gweithio y tu allan i'r cartref, ac o bosibl bod disgwyl iddynt ddarparu eu hincwm eu hunain. Islaw hyn, efallai yr ystyrir bod gan blant lai o anghenion neu fod mwy yn cael ei brynu iddynt gan eu rhieni.

Mae plant hŷn yn llai tebygol o dderbyn arian fel gwobr am ymddygiad da, o bosibl gan fod gosod ymddygiad da yn fwy o ffocws i rieni a gofalwyr grwpiau oed iau. Yn ychwanegol, y rhai 4 i 6 oed yng Nghymru sydd fwyaf tebygol o dderbyn arian 'o bryd i'w gilydd' ar ddyddiau arbennig allan. Gallai hyn fod oherwydd bod mwy o gyfleoedd i wario arian yn codi ar ddyddiau allan, neu yn syml, gallai hyn fod gan fod y grŵp oed hwn yn derbyn llai o arian yn gyffredinol nac eraill, ac mae rhieni yn gwneud iawn ar yr achlysuron hyn.

Siart 1: O ble y mae plant yn derbyn eu harian



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc PP5 Ym mha un o'r ffyrdd canlynol y mae plentyn yn derbyn arian ei hun? Rhieni'r rhai 4 i 6 oed. CYP2 O ble'r ydych chi'n cael eich arian? 7-17 Sylfaen: Pawb 4-6 n=117, Pawb 7-17 n=476

*Maint sylfaen isel: 84 (16-17 oed).

12. Daw'r data ar gyfer y siart hwn gan rieni plant 4 i 6 oed, ond yn uniongyrchol gan blant 7 i 17 oed

Mae o ble y daw arian plant yn amrywio gydag incwm ynghyd ag oed. Yn gyffredinol, plant mewn cartrefi incwm uchel yng Nghymru sydd yn fwyaf tebygol o dderbyn arian trwy unrhyw lwybr, gan gynnwys gweithio y tu allan i'r cartref: Mae gan 21%[13] mewn cartrefi incwm uchel swydd y tu allan i'r cartref o'i gymharu â 10% ar gyfer y rheini mewn cartref incwm cymedrol a 12% o gartref incwm isel.

Mae plant 7 i 17 oed mewn cartrefi incwm isel hefyd ychydig yn llai tebygol o dderbyn arian poced: 65% yn erbyn 71% mewn cartrefi incwm cymedrol a 73%[14] incwm uchel, neu arian ar gyfer pen-blwyddi, Nadolig neu achlysuron arbennig: 67% yn erbyn 84% mewn cartref incwm cymedrol ac uchel.

Yr eithriad i hyn oedd ymhlith y rhai 4 i 6 oed, ble mae plant mewn teuluoedd incwm isel yw'r mwyaf tebygol o gael arian poced gan naill ai rhieni neu ofalwyr eraill. Mae'n ymddangos er mai cartrefi incwm uchel sy'n fwyaf tebygol o roi arian poced yn gyffredinol, mae cartrefi incwm isel yn fwy tebygol o roi arian poced yn gynt. Nid yw'n amlwg pam; gallai hyn fod yn agwedd i ymchwilio iddo mewn ymchwil pellach.

Faint o arian y mae plant yn ei dderbyn?

Gofynnwyd i'r rhai 7 i 17 oed i gofio faint o arian y gwnaethant ei dderbyn yr wythnos ddiwethaf, er mwyn cael y data mwyaf cywir. Roedd y swm yr oedd plant yn dweud yr oeddynt yn ei dderbyn yn amrywio o tua £6 ar gyfer y rhai rhwng 7 a 11 oed, i tua £20 ar gyfer y rhai 16 a 17 oed. Ar gyfartaledd roedd plant yn derbyn £11.87[15] yn ystod yr wythnos flaenorol, a dim ond 7% yn derbyn dim. Mae'r swm cyfartalog yn codi gydag oed, ond yn wahanol i'r DU yn gyffredinol, nid yw'n ymddangos bod perthynas rhwng y swm a dderbynnir ac incwm cartref cynyddol.

Nid yw'r rhan fwyaf o'r rhai 7 i 17 oed yng Nghymru yn derbyn arian yn rheolaidd (76%). Serch hynny, nid yw'r symiau a roddir bob amser yr un peth. Yn gyffredinol, mae 57% o'r rheini sy'n derbyn arian poced yn derbyn swm amrywiol o arian poced neu lwfans, ac mae 40% yn derbyn yr un peth bob wythnos neu fis. Mae derbyn yr un swm yn cynyddu gydag oed, ond mae'n is o fewn cartrefi incwm cymedrol (Siart 2).

Ledled y DU, roedd y plant hynny a oedd yn derbyn eu harian yn rheolaidd hefyd ar gyfartaledd yn derbyn mwy; fe allai fod, serch hynny, eu bod nhw'n ei chael hi'n haws cofio'r cyfanswm na'r rheini nad oeddynt yn derbyn arian yn rheolaidd[16].

Siart 2: Faint o arian y derbyniodd plant yr wythnos ddiwethaf

Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc YP1 Faint o arian a roddwyd i chi i gyd yr wythnos ddiwethaf? Sylfaen 7 i 17 Pob un sy'n derbyn arian: n=424

13. Maint sylfaen isel: 89
14. Ibid.
15. Cafodd symiau o £200 neu'n fwy eu tynnu o gyfrifo'r cymedr.
16. Nid yw'n bosibl dweud faint o'r arian hwn sydd o swyddi cyflogedig a faint sydd o ffynonellau eraill.

Pa mor aml y mae plant yn cynilo?

Yn gyffredinol, mae 12% o blant rhwng 8 a 17 yng Nghymru yn cynilo arian bob tro y maen nhw'n derbyn peth arian ac mae 31% yn cynilo rhan fwyaf o'r amser.[17] Mae gan y rheini mewn cartrefi incwm uchel duedd gynyddol i gynilo bob tro/rhan fwyaf o'r amser, ond nid oes unrhyw batrwm oed clir. Ledled y DU, mae hyder wrth reoli arian hefyd yn benderfynyn allweddol.

7% yn unig sy'n dweud eu bod nhw byth yn cynilo, ond mae plant mewn cartrefi incwm isel yn fwyaf tebygol o adrodd nad ydynt byth yn cynilo (14%).

Ymhlith y rhai 4 i 6 oed, mae 83% yn adrodd bod ganddynt peth arian wedi'i gynilo. Mae data ledled y DU yn nodi bod hyn ar ei isaf ymhlith y rhai 4 oed ac mewn cartref incwm isel.

Siart 3: Pa mor aml y mae plant yn cynilo



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc C4. Pan fyddwch chi'n derbyn arian, pa mor aml yr ydych chi'n cynilo o leiaf peth ohono, [dyweder trwy ei roi mewn cadw-mi-gei neu focs arian neu yn eich cyfrif banc]? Sylfaen: 8-17 gydag arian n=413

* Meintiau sylfaen isel: 85 (incwm isel); 79 (incwm uchel)

A all plant reoli eu harian?

Yn gyffredinol, dywedodd 84% o rieni'r rhai 7 i 17 oed yng Nghymru y gallai eu plant reoli eu harian bob amser (37%) neu weithiau (47%), o'i gymharu â dim ond 23% o rieni'r rhai 4 i 6 oed. Plant, ym marn eu rhieni allai reoli eu harian bob amser, sydd fwyaf tebygol o fod mewn grwpiau oed hŷn, o deuluoedd incwm uchel, yn cynilo eu harian bob amser y maen nhw'n ei dderbyn ac yn hyderus yn ariannol (Siart 4).

17. Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn i rai 7 oed.

Siart 4: A yw plant yn gallu rheoli eu harian eu hunain – Barn rhiant



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc A yw [enw plentyn] yn gallu gwneud unrhyw un o'r isod...?: Rheoli \ ei arian neu lwfans ei hun o ddydd i ddydd? Sylfaen: Pob rhiant i'r rhai 7 i 17 oed ble mae'r plentyn yn derbyn arian ei hun n=455

* Meintiau sylfaen is: 94 (incwm isel); 86 (incwm uchel).

Er gwaethaf hyn, yn y grŵp oed 7 i 17 oed, dim ond 64% o blant yng Nghymru a oedd yn gwybod yn union neu'n fras faint o arian a oedd ganddynt. Pa un a yw rhywun yn gwybod (o leiaf yn fras) faint o arian sydd ganddynt, yn ddangosydd o reolaeth ariannol da, felly mae'n ymddangos bod bwlch: a yw rhieni yn orhyderus am allu eu plentyn i reoli eu harian?

Plant hŷn sy'n fwyaf tebygol o wybod faint o arian sydd ganddynt (Siart 5). Ledled y DU, y plant sy'n cynilo bob tro sy'n fwyaf tebygol o wybod faint o arian sydd ganddynt, tra mai plant mewn cartrefi incwm isel sy'n lleiaf tebygol o wybod. Mae hyn yn gwahaniaethu o ganfyddiadau Arolwg Gallu Ariannol Oedolion 2015: oedolion ar incymau isel oedd y mwyaf tebygol o wybod faint o arian a oedd ganddynt yn eu cyfrifon banc.[18]

Siart 5: A yw plant yn gwybod faint o arian sydd ganddynt hwy



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc CYP5. A ydych chi'n gwybod faint o arian sydd gennych i gyd yn yr holl fannau hynny? Gan gynnwys eich cyfrif banc? Sylfaen: 7 i 17 oed sy'n derbyn arian n=455

18. *Gallu Ariannol yn y DU 2015* (y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2015)

Pan ofynnwyd iddynt sut y maen nhw'n cadw llygad ar eu harian, dywedodd 19% o'r rhai 14 i 17 oed nad ydynt yn cadw llygad o gwbl, ac mae hyn yn amrywio yn ôl oed o 26% i'r rhai 14-15 oed i 13% o'r rhai 16-17 oed. Mae 30% pellach o'r rhai 14 i 17 oed yn cadw trefn yn eu pennau yn unig.

Y pum prif ddull o gadw llygad ar gyfer y rhai 14 i 17 oed yw:

- 36% yn defnyddio cyfrif banc ar-lein (yn sylweddol uwch na'r DU, 27%)
- 30% yn cadw trefn yn eu pennau (mwyaf tebygol o gael ei ddefnyddio ledled y DU)
- 23% yn gwirio eu balans mewn peiriant arian
- 18% yn adolygu eu cyfriflenni
- 12% yn defnyddio ap symudol.

Mynediad at gynnyrch ariannol a defnydd ohonynt

A oes gan blant gyfrifon banc?

Yn gyffredinol, mae gan 69% o blant 7 i 17 oed yng Nghymru gyfrif banc o unrhyw fath, naill ai gyfrif cyfredol neu gyfrif cynilo.[19] Mae hyn yn codi gydag oed ac incwm ac ychydig yn fwy cyffredin ymhlith y rheini sy'n derbyn arian rheolaidd. Er nad ydym yn gofyn yn benodol am gyfrifon undeb credyd, rydym yn ymwybodol bod gan rai ysgolion cynradd yng Nghymru glybiau cynilo gyda'u hundebau credyd lleol ac o bosibl eu bod yn cael eu cynrychioli yma.

Siart 6: Canran y plant sydd â chyfrif banc (o unrhyw fath)



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc NQ4 (C). A oes gennych chi gyfrif banc eich hun?
Sylfaen: Pawb 7-17 n=476

* Meintiau sylfaen isel: incwm uchel (89)

19. Mae'r term 'cyfrif banc' yma yn cynnwys cyfrifon cymdeithas adeiladu neu undeb credyd.

Mae'r math o gyfrif sydd ganddynt hefyd yn amrywio gydag oed, incwm a pha un a yw plentyn yn derbyn arian rheolaidd neu afreolaidd. Mae plant iau yn fwy tebygol o gael cyfrif cynilo a phlant hŷn yn fwy tebygol o gael cyfrif cyfredol. Tra bod cyfran y plant sy'n dal cyfrif cyfredol yn fwy na dyblu o 12-15 oed i 16-17 oed (32% i 72%), mae'r gyfran gyda chyfrif cynilo yn fwy unffurf - sy'n cynnig tystiolaeth bellach nad yw arferion cynilo yn newid gydag oed. **Mae tri o bob deg o'r rhai 16 i 17 oed yng Nghymru (28%) hefyd yn parhau heb gyfrif cyfredol, er bod hyn yn sylweddol is na'r 39% yr adroddwyd amdano ledled y DU.** Mae tua un o bob wyth (12%) nad oes ganddynt gyfrif banc o gwbl, sy'n is na'r 18% yr adroddwyd ledled y DU.[20] Gallai'r plant hyn fod yn colli allan ar gyfleoedd i ddysgu am reoli eu harian, ennill hyder, a meithrin gwybodaeth a sgiliau ariannol.

Siart 7: Math o gyfrif banc sydd ganddynt



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc C4. A ydych chi'n gwybod pa fath o gyfrif banc sydd gennych chi? Ai.... (8+) Sylfaen: gofynnwyd i bob plentyn nid dim ond y rheini gyda chyfrif banc n=476

* Meintiau sylfaen is: 89 (incwm uchel).

Mae'r rheini sydd â chyfrif banc yn perfformio amrywiaeth o dasgau, yn bennaf rhoi arian ar gadw a chodi arian a gwirio eu balans. Mae'r holl weithgareddau yn cynyddu gydag oed, yn benodol gan ddefnyddio cerdyn debyd, ynghyd â chodi arian. Mae plant sy'n derbyn arian rheolaidd yn fwy tebygol o ymgymryd â phob un o'r gweithgareddau. Yr hyn sy'n drawiadol yw absenoldeb llawer o'r ymddygiadau hyn ymhlith plant hŷn – er enghraifft, nid yw 28% o'r rhai 16 i 17 oed gyda chyfrif banc yn adrodd eu bod yn rhoi arian ar gadw, ac nid yw 37% yn mynd i'r banc, ac nid yw 43% yn gofalu am eu manylion banc eu hunain (Siart 8).

20. .Gan gynnwys 2% nad ydynt yn gwybod.

Siart 8: Gweithgareddau a wneir gan blant gyda chyfrifon banc



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc PP19. Pa un o'r isod yr ydych chi'n eu gwneud gyda'ch cyfrif(on) banc...? (8+) Seiliau yn amrywio

Pwy sy'n dewis cynnyrch ariannol plant?

Yn gyffredinol, rhieni yn unig sy'n fwyaf tebygol o ddewis cynnyrch bancio eu plentyn, gan wneud hynny 67% o'r amser, o'i gymharu â 27% sy'n dewis ar y cyd a dim ond 5% o blant sy'n gwneud y penderfyniad eu hunain. Mae plant yn fwy tebygol o fod yn rhan o'r penderfyniad pan fyddan nhw'n hŷn, a phan fyddant yn derbyn arian rheolaidd. Ledled y DU rydym hefyd yn gweld y cysylltiad hwnnw pan fyddant yn fwy hyderus gydag arian.

Siart 9: Pwy sy'n dewis cynnyrch bancio plant?



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc PP9 I ba raddau oedd [enw plentyn] yn rhan o ddewis cynnyrch bancio yn [ei henw/ei enw]? 7-17 rhieni: Sylfaen: rhieni plentyn gyda chynnyrch bancio n=400

* Meintiau sylfaen is: 88 (16-17 oed); 89 (arian afreolaidd)

Mae'n ymddangos bod plant, yn bennaf y rheini 12 i 15 oed, yn fwy ynghlwm ym mhenderfyniadau am gynlluniau ffonau symudol na chynnyrch bancio, ac mae patrwm tebyg o gyswllt cynyddol yn ôl oed. Yn gyffredinol, mae gan 80% o blant 8 oed a hŷn yng Nghymru ffôn symudol ac mae 44% o'r rhain yn rhan o ddewis y pecyn.

Siart 10: Canran y plant sy'n rhan o benderfyniad am eu pecyn ffôn symudol



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc CYP1. Ydych chi'n cael dewis cost eich pecyn galwad a data ffôn symudol? 8+. Sylfaen: Pob un 8-17 oed gyda ffôn symudol n=338

* Meintiau sylfaen is: 69 (8-11 oed)

Profiadau o wario a chynilo?

Pwy sy'n gwneud penderfyniadau am wariant a chynilo?

Pan ddaw hi at wario a chynilo, mae rhieni yn llai tebygol o wneud penderfyniadau am eu plentyn ac yn fwy tebygol o roi rhyddid iddynt benderfynu dros eu hunain, naill ai gyda chefnogaeth rhieni neu hebddo. Mae mwy na thri-pumed (61%) o'r rhai 7 i 17 oed yng Nghymru sy'n derbyn arian yn gyfrifol am benderfynu sut y maen nhw'n gwario eu harian eu hunain; mae 35% yn penderfynu gyda'u rhieni; a dim ond 4% ble y mae eu rhieni yn penderfynu. Fel y dangosir yn Siart 11, mae hyn yn amrywio'n sylweddol gydag oed.

Dim ond rhieni'r rhai rhwng 4 a 6 oed sy'n penderfynu mewn unrhyw niferoedd mawr sut y mae arian y plant hynny yn cael ei wario, a hyd yn oed ymhlith y grŵp hwn, mae un o bob naw o blant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain.

Siart 11: Pwy sy'n penderfynu sut y mae arian y plentyn yn cael ei wario?



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc CYP8B (C). Pan fydd gennych arian, pwy sydd fel arfer yn penderfynu ar beth yr ydych chi'n ei wario? CYP 7-17 Sylfaen: Pawb sy'n derbyn arian n=443

* Meintiau sylfaen is: 91 (incwm isel); 85 (incwm uchel); 87 (arian afreolaidd)

Mae cyfran y plant sy'n talu o'u harian eu hunain yn cynyddu gydag oed am yr holl nwyddau, ar wahân i fyrbrydau a theganau (Siart 12). Yn gyffredinol, mae plant yng Nghymru sy'n hŷn, neu sy'n derbyn arian rheolaidd yn fwy tebygol o dalu am bob un o'r eitemau hyn. Nid yw patrymau ledled y DU o debygoliaeth gynyddol i dalu ymhlith cartrefi incwm uwch, i'w gweld yma.

Yn ôl rhieni; fel arfer gyda phlant gyda ffonau symudol mae rhywun arall yn talu am y costau ar eu cyfer. Yn gyffredinol dim ond 19% o blant gyda ffonau sy'n talu am y bil cyfan neu ran o'r bil. Mae hyn yn uwch ymhlith plant hŷn: Mae 17% o'r rhai 16 i 17 oed yn talu am eu bil cyfan ac mae 12% yn talu peth ohono.

Siart 12: Beth y mae plant yn talu amdano o'u harian eu hunain



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc YP7 (C). A ydych chi'n gorfod talu am unrhyw un o'r pethau canlynol o'ch arian eich hun...? (11+) Sylfaen: Pawb 11+ gydag arian – seiliau'n amrywio.

Dywedodd dros hanner (54%) plant 7 i 17 oed yng Nghymru mai nhw sy'n penderfynu a ydynt yn cynilo'r arian ai peidio. Dywedodd traean pellach (34%) ei fod yn benderfyniad ar y cyd a dim ond 12% sy'n adrodd mai eu rhieni sy'n penderfynu. Er bod hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl oed, mae'n amlwg bod cyfran resymol o rieni yn rhoi cyfrifoldeb i blant a ydynt eisiau cynilo neu beidio o oed cynnar: mae gan 37% o'r rhai 7 i 11 oed gyfrifoldeb llwyr yn barod dros benderfynu a ddylent gynilo arian ai peidio. Mae tystiolaeth cynt yn dangos nad yw'r debygoliaeth i gynilo yn amrywio'n sylweddol ar ôl 7 oed.

Siart 13: Pwy sy'n penderfynu a yw plant yn cynilo?



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc CYP8a Pan fydd gennych arian, pwy sydd fel arfer yn penderfynu a fyddwch chi'n cynilo unrhyw ran ohono? 7-17 Sylfaen: Pawb sy'n derbyn arian n=438

* Meintiau sylfaen is: 89 (incwm isel); 84 (incwm uchel).

A oes gan blant brofiad o dalu am bethau?

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn rhoi profiad i'w plant o dalu am bethau mewn siopau o oed ifanc. Yn ôl rhieni yng Nghymru mae 76% o'r rhai 4 i 6 oed wedi talu'n bersonol am nwyddau gan ddefnyddio eu harian eu hunain neu eu rhieni. Mae hyn yn codi i 85% o'r rhai 7 i 11 oed, 90% o'r rhai 12 i 15 oed a 98% o'r rhai 16 i 17 oed. Yn y DU mae hyn yn uwch ymhlith plant sy'n hyderus wrth reoli arian a phlant sy'n cynilo.

Mae hefyd yn bwysig edrych ar brynu ar-lein, gan fod ymchwil yn dangos bod cyfanswm yr amser a dreulir ar-lein i'r rheini sy'n 8 i 11 oed a 12 i 15 oed wedi mwy na dyblu ers 2005.[21]

Yn gyffredinol, mae 42% o'r rhai 7 i 17 oed yng Nghymru wedi talu am bethau ar-lein, boed hynny gydag arian eu hunain neu arian rhieni. Mae hyn yn codi gydag oed ac incwm y cartref (a hyder gydag arian o fewn cyd-destun y DU). O blith y plant sydd wedi prynu ar-lein, mae cyfartaledd o 52% wedi gwneud hynny heb oruchwyliaeth oedolyn a 68% wedi defnyddio eu harian eu hunain. Mae hyn yn codi i 75% a 86% yn y drefn honno ymhlith y rhai 16 i 17 oed.

Mae'r ystadegau hyn yn debyg o newid dros amser wrth i siopa ar-lein ddod yn fwyfwy cyffredin. Mae'r un o bob tri o blant 7 i 11 oed hynny sydd wedi prynu ar-lein (Siart 14) yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw hi fod plentyn yn deall sut i fod yn 'ddoeth' ar-lein, ac yn glir am y risgiau sy'n bodoli. Mae'n galonogol bod ymchwil gan Ofcom yn dangos bod bron i bob rhiant (99% o blant 3-4 oed a 96% o blant 5 i 15 oed) yn defnyddio o leiaf un dull o gyfryngu defnydd eu plentyn ar y rhyngrwyd, megis defnyddio offer technegol, trafod y risgiau gyda'u plentyn, goruchwylio eu plentyn tra'i fod ar-lein neu osod rheolau wedi'u diffinio am fynediad ac ymddygiad ar-lein. Dengys yr astudiaeth hefyd bod lefelau cyfryngu wedi cynyddu o 2015 i 2016.[22]

21. O 4.4 awr yr wythnos yn 2005 i 11.1 awr yn 2015 ar gyfer y rhai 8 i 11 oed, ac o 8 awr i 18.9 ar gyfer y rhai 12 i 15 oed. *Plant a rhieni: adroddiad defnydd cyfryngau ac agweddau* (Ofcom, 2016)

22. *Plant a rhieni: adroddiad defnydd cyfryngau ac agweddau* (Ofcom, 2016)

Siart 14: Prynu ar-lein



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc PP20b (PP). A yw [enw plentyn] byth yn ...? : Talu am bethau ar-lein ei hun, megis apiau, gemau neu gerddoriaeth (gyda naill ai ei arian ei hun neu'ch arian chi)/PP22b (PP). Pan fydd [Enw plentyn] yn talu am bethau ar-lein megis apiau, gemau neu gerddoriaeth, a yw [ef/hi]...? : Talu ar-lein heb oruchwyliaeth oedolyn/PP22c (PP). Pan fydd [Enw plentyn] yn talu am bethau ar-lein megis apiau, gemau neu gerddoriaeth, a yw [ef/hi]...? : Yn defnyddio ei arian ei hun neu gyfrif ar-lein. Seiliau yn amrywio ond y cyfan wedi'i seilio ar yr holl blant rhwng 7 i 17 oed.

* Meintiau sylfaen is: 88 (incwm uchel)

Goblygiadau

Yn gyffredinol, mae gan y rhan fwyaf o blant yng Nghymru ryw radd o brofiad wrth ddefnyddio a rheoli arian, gan ddechrau o oed ifanc iawn. Serch hynny, mae gan rai grwpiau lai o brofiad ac efallai y bydd angen cefnogaeth arnynt i sicrhau'r lefel o wybodaeth a sgiliau y bydd ei hangen arnynt i ddod yn oedolion galluog yn ariannol.

I'r rhan fwyaf o blant, mae profiad o arian yn codi gydag oed. O bryder penodol yn y bennod hon yw is-set y rhai 16 i 17 oed nad oes ganddynt gyfrifon banc, neu sydd â chyfrifon ond nad ydynt yn goflau am eu manylion eu hunain na'n talu arian i mewn. Mae'r plant hyn ar fin troi'n oedolion ac efallai y bydd angen cefnogaeth ychwanegol arnynt i ofalu am eu materion ariannol yn annibynnol. Mae'n bwysig bod pobl ifanc 16 i 17 oed yn cael y cyfle hwn.

Y grŵp amlwg arall a allai elwa o fwy o gefnogaeth yw plant o deuluoedd incwm isel. Y plant hyn sy'n fwyaf tebygol o beidio â chynilo 'byth'; mae eu rhieni yn eu hadnabod fel y lleiaf tebygol i allu rheoli eu harian; a nhw sy'n lleiaf tebygol o wybod faint o arian sydd ganddynt yn eu cyfrif.

Mae rhai ymddygiadau hefyd, megis ymroi i gynilo, a chadw llygad eich arian, sy'n gysylltiedig â lefel uwch o allu ariannol ymhlith oedolion, ac nad yw rhai plant yn cael cyfle i ddysgu. Mae'n bwysig bod addysg – a hynny yn yr ysgol ac yn y cartref – yn cefnogi hyn. Ceir tystiolaeth bod arferion y mae plant yn eu dechrau yn ifanc yn fwy tebygol o gael eu cynnal i oedolaeth.[23]

Mae llawer y gall rhieni ei wneud i helpu eu plant i ddod yn wybodus yn ariannol ac i ymgysylltu. Yn gyntaf, fe allent gynnwys plant mewn penderfyniadau ar oedran iau. Er nad ydym yn awgrymu y dylai rhieni plant iau eu gadael i wneud eu dewisiadau eu hunain am gyfrifon banc neu becynnau ffôn ar eu pennau eu hunain, ceir tystiolaeth drwy gydol yr adroddiad hwn bod rhoi'r grym i blant i wneud eu penderfyniadau eu hunain - gyda chefnogaeth ddigonol, briodol i'w hoed - yn arwain at ganlyniadau gwell.

Fel y trafodwyd yn y cyflwyniad, nid yw'n glir a yw plant hyderus yn fwy tebygol o chwarae rhan mewn penderfyniadau am eu harian, neu a yw'r ffaith eu bod yn gysylltiedig yn eu gwneud yn hyderus. Serch hynny, mae cwmpas i rieni i ddefnyddio trafod dewis cyfrif banc neu gynnyrch ariannol eraill fel ffordd o feithrin hyder wrth reoli arian.

Mae llawer o blant bellach yn gwario arian ar-lein hefyd ac mae cyfran sylweddol yn gwneud hynny heb oruchwyliaeth. Mae nifer o risgiau posibl yn gysylltiedig â hyn ac mae'n bwysig bod rhieni yn paratoi eu plant ar eu cyfer.

Fe welwyd yn y bennod hon hefyd bod cyfran o rieni sy'n gwneud penderfyniadau am wariant a chynilo eu plant ar eu rhan. Yn y penodau dilynol, fe welwn fod gwneud hynny yn aml yn gysylltiedig â chanlyniadau gwaeth na phan fydd plant yn gysylltiedig â gwneud penderfyniadau. Er bod y rhieni hyn heb os wedi'u gyrru gan ddymuniad i ddiogelu eu plant, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yma yn awgrymu y gallai eu plant elwa o gefnogaeth, yn lle hynny, i'w grymuso hwy. Efallai y bydd rhieni eu hunain hefyd angen cefnogaeth o dan rai amgylchiadau, i'w helpu i ymgysylltu â'u plant a theimlo'n fwy hyderus wrth roi cyfrifoldeb iddynt ar oed iau.

23. *Ffurfio Arferion a Dysgu mewn Plant Ifanc* (y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2013).

Pennod 2: Beth y mae plant yn ei feddwl am arian

Cryfderau i adeiladu arnynt:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yng Nghymru rhwng 11 a 17 oed (87%) yn cytuno ei bod hi'n bwysig dysgu am reoli eu harian.
- Mae mwyafrif helaeth plant (97%) yn dweud y byddent yn cynilo o leiaf rhyw faint pe bai hwy'n derbyn £100.
- Mae gan blant agwedd gofalus tuag at fenthyca: byddai'n well gan dros hanner (55%) beidio â benthyca, a dywedodd 96% o blant na fyddent yn benthyca pe na bai hwy'n gallu fforddio ei dalu.
- Dim ond 21% o blant 11 i 17 oed sy'n teimlo nad ydynt yn gallu gwneud gwahaniaeth i'w sefyllfa ariannol.
- Mae'r rhan fwyaf o blant 11 i 17 oed yn uchelgeisiol a chanddynt nodau mewn bywyd megis mynd i brifysgol a sicrhau swydd ddiogel. Dim ond 8% yn gyffredinol nad oedd ag unrhyw un o'r nodau y gofynnwyd iddynt amdanynt.
- Mae gan bron i bob plentyn 7 i 17 oed (94%) peth profiad o gynilo am swm penodol o amser i brynu pethau penodol y maen nhw eu heisiau.

Mae angen gwaith:

- Dim ond 22% o'r rhai rhwng 11 a 17 oed yng Nghymru sydd â nod i fod yn annibynol yn ariannol o'u rhieni o fewn y pum mlynedd nesaf, sy'n sylweddol is na'r 31% yr adroddwyd amdano ledled y DU

Ledled y DU, fe welwn rhai patrymau yn esblygu ble y mae rhieni yn gyfrifol am benderfynu ar wariant plentyn:

- Plant y mae eu rhieni yn penderfynu ar eu gwariant yw'r mwyaf tebygol o ddweud nad ydynt yn poeni am fenthyca hyd yn oed os nad allant ei ad-dalu.
- Mae plant 4 i 6 oed y mae eu rhieni yn penderfynu ar eu gwariant yn llawer yn fwy tebygol o wneud cyfaddawdau gwael o ran yr hyn sydd eisiau yn erbyn yr hyn sydd ei angen na'r rheini sy'n penderfynu dros eu hunain.
- Yn ychwanegol, plant ledled y DU sydd byth yn cynilo sydd lleiaf tebygol o fod yn hyderus wrth reoli eu harian.

Agweddau tuag at reoli arian

Beth y mae plant yn ei feddwl am wario a chynilo?

Roedd gan y rhan fwyaf o blant yng Nghymru agwedd gweddol gadarnhaol tuag at gynilo arian yn erbyn gwario'r cyfan ar unwaith. Gofynnwyd i blant ddychmygu eu bod wedi derbyn swm gweddol fach: £5 i'r rhai rhwng 4 a 6 oed a £10 i'r rhai rhwng 7 a 17 oed. Yn gyffredinol, dywedodd y rhai 4 i 6 oed y byddent yn aros a meddwl am beth i'w wneud â'r arian, yn hytrach na gwario'r cyfan ar unwaith, a dim ond 13% o'r rhai 7 i 17 oed ddywedodd na fyddent yn cynilo unrhyw ran o'r arian.

Mae plant yn datblygu'n sylweddol rhwng 4 a 6 oed, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y data. Yn 4 oed, mae plant yn ei chael hi'n anos rheoli eu byrbwylltra felly heb fawr o syndod maen nhw'n llai tebygol o gynilo ond mae'n ddiddorol bod derbyn arian yn rheolaidd yn gysylltiedig â chynilo yn y grŵp oed hwn.

Siart 15: Canran y plant a fyddai yn gwario'r cyfan ar unwaith ar ôl derbyn £5 (4-6) neu £10 (7-17)



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc 12. (C) Dychmygwch ei bod hi'n ben-blwydd arnoch chi ddoe a'ch bod chi wedi derbyn GBP5, beth fyddech chi'n ei wneud ag ef? 4-6/CYP11 (C). Dychmygwch fod rhywun yn rhoi GBP10 i chi. Faint fyddech chi'n ei wario a faint fyddech chi'n ei gynilo at nes ymlaen? (7-17). Sylfaen: 4-6 Pob plentyn 117. 7-17 Pob plentyn n=476

Mae dealltwriaeth plant ei bod hi'n beth da i gynilo, a chan hynny eu canfyddiad o'u hunain fel cynilwr cyfrifol hefyd yn tyfu rhwng 4 a 6 oed, fel y ceir tystiolaeth yn nata y DU cyfan. Gellid cysylltu hyn hefyd â'u profiad cynyddol o ddefnyddio arian. Cefnogir y canfyddiadau hyn gan ymchwil sy'n dangos nad yw'r rhai 4 a 5 oed yn llawn ddeall cysyniad amser, sy'n golygu y gallai cysyniad cynilo i'r dyfodol fod yn anodd ei ddeall hefyd.[24]

Pan ofynnir i blant feddwl am swm mwy o arian, mae'r darlun yn newid. Gofynnwyd i'r rhai 12 i 17 oed ddychmygu eu bod wedi derbyn £100. Gyda swm o'r fath, mae cwmpas i fwynhau gwario a dal cyfle i neilltuo peth arian. Yn wir, nid yn unig y gallai'r swm annog y gwarwyr i gynilo, ond hefyd rhyddhau'r cynilwyr i wario. Ar gyfartaledd y cyfanswm a fyddai'n cael ei gynilo yw ychydig dros £60. Dim ond 3% na fyddai'n cynilo unrhyw beth o gwbl, a dim ond 8% fyddai'n cynilo'r £100 cyfan.[25] Rydym yn gweld yng Nghymru bod y swm y mae plant yn dweud y byddent yn ei gynilo yn cynyddu gydag incwm y cartref: mae'r rheini mewn cartrefi incwm uchel yn dweud y byddent yn cynilo mwy.

Ledled y DU rydym yn gweld:

- Un o'r bylchau mwyaf yn y swm sy'n cael ei gynilo yw rhwng y rheini sy'n hyderus wrth reoli eu harian a'r rheini nad ydynt yn hyderus. Ni allwn wybod a yw'r duedd i gynilo yn gyrru hyder, neu a yw plant hyderus yn cynilo mwy, ond mae'r gwahaniaeth hwn yn sicr yn cynnig tystiolaeth o berthynas rhwng y ddau.
- Mae'r canfyddiadau hyn hefyd yn dangos pwysigrwydd plant yn chwarae rhan mewn penderfyniadau i reoli eu harian eu hunain: mae plant yn y DU yn dewis cynilo'r lleiaf (£53.65) pan fydd eu rhieni yn penderfynu sut i wario eu harian a chynilo'r mwyaf (£62.15) pan fyddant yn penderfynu gyda'u rhieni.

Siart 16: Swm cyfartalog y dywedodd plant y byddent yn eu cynilo pe bai hwy'n derbyn £100



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc CYP12. Dychmygwch for rhywun yn rhoi £100 i chi. Faint fyddech chi'n ei wario a faint fyddech chi'n ei gynilo at yn ddiweddarach? (12+) oed Cyfartaledd a gafodd ei gynilo. Sylfaen: Pawb 12-17 n=289

* Meintiau sylfaen is: 61 (incwm isel); 66 (incwm uchel).

24. Ibid.

25. Mae ymatebwyr yn anhebygol iawn o ddewis pegynau eithafol cwestiynau rhifyddol fel hyn, felly gallai'r canrannau sy'n dweud 'dim byd o gwbl' a £100 fod yn artiffisial o isel.

Beth y mae plant yn ei feddwl am fenthyca a dyled?

Mae plant yn ofalus am fenthyca a dyled. Gofynnwyd i'r rhai rhwng 12 a 17 oed sut oeddynt yn ei deimlo am fenthyca arian a dywedodd y rhan fwyaf y byddai'n well ganddynt beidio; nid oedd hyn yn amrywio gydag oed. Dywedodd ychydig dros ddau o bob pump yng Nghymru (41%) y byddent yn hapus i fenthyca pe bai hwy'n gallu ei ad-dalu; mae'n aneglur a yw hyn yn adlewyrchu agwedd llai gofalus neu ddealltwriaeth fwy soffistigedig bod rhai mathau o fenthyca yn fuddiol (Siart 17). Ledled y DU mae'n amlwg mai plant mewn teuluoedd incwm isel yw'r mwyaf tebygol o wrthod benthyca o gwbl.

Ychydig iawn o blant (4%) oedd yn barod i fenthyca hyd yn oed os na allent ei ad-dalu. Ledled y DU roedd y ffigwr hwn yn sylweddol uwch ymhlith plant y mae eu rhieni yn penderfynu sut y mae eu harian yn cael ei wario, y rheini sydd byth yn cynilo a'r rheini yr oedd eu hyder wrth reoli arian yn isel.

Gofynnwyd hefyd i'r rhai 15 i 17 oed sut y byddent yn ymdopi pe bai angen arian ychwanegol arnynt – i dalu bil ffôn annisgwyl, er enghraifft. Ychydig iawn (10%) a ddywedodd y byddent yn benthyca'r arian. Dywedodd y rhan fwyaf y byddai eu rhieni yn talu (42%) neu y byddent yn defnyddio eu cynilon (31%). Serch hynny, dim ond 29% sy'n talu tuag at eu bil ffôn ar hyn o bryd felly mae'n bosibl na fyddai disgwyl iddynt dalu am hyn o fewn eu teulu.

Siart 17: Sut y mae plant yn teimlo am fenthyca



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc YP11 (C). Isod y mae rhai pethau y mae pobl o'ch oed chi wedi dweud am fenthyca arian. Pa un sy'n disgrifio orau sut yr ydych chi'n teimlo am fenthyca arian? (12+) Sylfaen: Pob un 12-17 n=288

A yw plant yn deall na allant gael popeth?

Mae llawer o blant yn deall na allant gael popeth y maen nhw ei eisiau, neu sydd gan eu ffrindiau; bod yn rhaid cyfaddawdu; ac y dylent gadw at gytundebau y maen nhw wedi'u gwneud gyda'u rhieni. Maen nhw'n deall hynny – ond nid yw hynny'n golygu ei bod hwy bob amser yn hoffi hynny, neu eu bod yn cadw at y cytundebau.

Yn gyffredinol, nid yw 58% o blant 7-17 oed yn hoffi pan fydd eu rhieni yn dweud na fyddant yn prynu pethau y maen nhw'n eu gweld mewn siopau. Mae plant hŷn yng Nghymru (16-17 oed) yn llai tebygol o ddweud nad ydynt yn ei hoffi (45% o'i gymharu â 57% o'r rhai 12-15 oed a 68% o'r rhai 7 i 11 oed). Gallai hyn fod oherwydd eu bod yn fwy aeddfed a realistig, neu efallai oherwydd bod ganddynt fwy o arian eu hunain ac yn fwy abl i allu prynu pethau eu hunain.

Gofynnwyd hefyd i'r rhai 7 i 17 oed a oeddynt yn cytuno â'r datganiad: "Dydw i ddim yn hoffi pan fydd gan fy ffrindiau bethau nad oes gennyf i". Yn gyffredinol, roedd 54% yn cytuno. Mae hyn yn gostwng gydag oed (61% o'r rhai 7 i 11 oed yn erbyn 44% o'r rhai 16-17 oed), ond yn wahanol i'r DU, nid yw'n amrywio yn ôl incwm. Mae canlyniadau ledled y DU yn nodi mai plant sydd byth yn cynilo sy'n fwyaf tebygol o gytuno.

Mae plant hefyd yn weddol dda am adnabod na allant gael popeth y maen nhw ei eisiau wrth brynu ar-lein. Yn gyffredinol, dywed 93% o rieni y bydd eu plant yn cadw at gytundebau sydd ganddynt ar gyfer gwario ar-lein.

Mae cynilo am eitem benodol yn ffordd dda i blant ddeall dewisiadau a chyfaddawdu. Mae gan y rhan fwyaf o blant 7 i 17 oed beth profiad o gynilo am y pethau y maen nhw eu hangen. Yn gyffredinol, dim ond 6% sy'n dweud nad ydynt erioed wedi cynilo ar gyfer unrhyw beth ac mae 11% wedi cynilo am dros flwyddyn. Plant iau yw'r lleiaf tebygol o fod wedi cynilo, a'r mwyaf tebygol o fod wedi cynilo am gyfnodau byrrach o hyd at un mis.

Siart 18: Y cyfnodau hwyaf y mae plant wedi cynilo



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc CYP6 (C). Beth yw'r amser hwyaf yr ydych chi wedi cynilo? (er enghraifft i brynu rhywbeth yr oeddech chi ei eisiau) (7-17). Sylfaen: Pob plentyn n=410

* Meintiau sylfaen is: 96 (16-17 oed)

Fe roddwyd senario syml i blant 4 i 6 oed i weld pa mor dda y maen nhw'n deall cyfaddawdu (Ffigwr 1). Roedd y senario yn gofyn iddynt ddewis rhwng rhywbeth yr oeddent ei eisiau (tegan) a rhywbeth yr oedd ei angen arnynt (cinio); yn gyffredinol byddai 71% yn prynu cinio. Awgryma ganlyniadau ledled y DU bod plant 4 oed yn fwyaf tebygol o ddewis y tegan. Nid yw hyn yn syndod gan ei fod yn perthyn cymaint i'w cyfnod datblygu ag ydyw i ffactorau eraill megis agwedd tuag at arian a dealltwriaeth o gyfaddawdu. Mae ffactorau megis pwy sy'n penderfynu am wario, disgrifio eich hun fel cynilwr neu wariwr, a rhieni yn trafod arian gyda'r plentyn, hefyd yn gysylltiedig â hyn.

Ffigwr 1: Senario cyfaddawdu ar gyfer plant 4 i 6 oed.



Er gwaethaf y plant yn gwybod na allant gael popeth, mae nifer ohonynt dal i 'fentro'u siawns' a gofyn am bethau ar ôl iddynt gael eu gwrthod. Yn gyffredinol, mae dros dri chwarter y rhai 4 i 6 oed yng Nghymru a bron i ddau draean o'r rhai 7 i 17 oed yn gwneud hyn, sy'n dangos yr her allweddol y mae rhieni yn eu hwynebu ac efallai eu bod angen cefnogaeth gyda hyn. Dengys siart 19 hyn yn ôl oed.

Mae hefyd yn ddiddorol nodi bod plant ledled y DU yn fwyaf tebygol o barhau i ofyn pan fydd plant a rhieni yn penderfynu am wariant gyda'i gilydd. Efallai, yn hytrach na phlant yn methu deall bod arian yn gyfyngedig, ein bod ni'n gweld plant sy'n arfer trafod gyda'u rhieni ar faterion ariannol.

Siart 19: Canran y plant sy'n gofyn am bethau ar ôl i'w rhieni ddweud na allant eu cael



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc PP20c. (PP) A yw'r plentyn byth yn? Gofyn am bethau ar ôl iddo ef/iddi hi gael gwybod na all ef/hi eu cael. Atebodd rhieni i blant 4 i 6 Atebodd rhieni i blant 7 i 17. Y rheini a atebodd 'Ydy'.
Sylfaen: Pawb 4-6 117, Pawb 7-17 n=469

A yw plant yn teimlo'n hyderus a bod eu materion ariannol dan reolaeth?

Yn gyffredinol, dim ond 21% o'r rhai 11 i 17 oed a oedd yn cytuno â'r datganiad "Nid oes unrhyw beth y byddaf i yn ei wneud yn gwneud llawer o wahaniaeth i fy sefyllfa ariannol". Mae hyn yn galonogol, gan fod y cwestiwn hwn yn ddangosydd da o ymgysylltiad ariannol ymhlith oedolion.[26] Ledled y DU, fe welwn fod cytundeb yn sylweddol uwch ymhlith plant o gartrefi incwm isel. Eto, rydym yn gweld tystiolaeth o berthynas agweddau cadarnhaol i gynnwys plant mewn penderfyniadau, ac â hyder ariannol.

Gofynnwyd i'r rhai 12-17 oed pa mor hyderus y maen nhw'n teimlo wrth reoli eu harian. Yn gyffredinol mae 40% yn teimlo'n hyderus yng Nghymru.[27] Dangosodd canlyniadau ledled y DU gynnydd bach mewn hyder gydag oed, ond nid ymddengys bod incwm y cartref yn chwarae rhan sylweddol yn yr hyder. Ar ben hynny, ledled y DU, y gwahaniaeth mwyaf o bell ffordd oedd rhwng plant sy'n cynilo bob tro y maen nhw'n derbyn arian a'r rheini sydd byth yn cynilo. Eto, nid yw'n amlwg a yw cynilo yn golygu hyder ariannol, neu neu a yw plant sy'n hyderus yn ariannol yn cynilo, ond mae yna gysylltiad amlwg.

26. *Mesur gallu ariannol – adnabod y conglfeini* (Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2016).
27. Roedd y rheini a sgoriodd 8-10 allan o 10 ar gyfer y cwestiwn 'Pa mor hyderus yr ydych chi'n teimlo wrth reoli'ch arian?' yn cael eu dosbarthu yn 'Hyderus'.

Nodau a dyheadau

A yw plant eisiau dysgu am reoli arian?

Mae mwyafrif helaeth y rhai 11 i 17 oed yn cytuno ei bod hi'n bwysig dysgu i reoli eu harian. Yn gyffredinol mae 87% yn cytuno. Mae plant iau (81%) a'r rheini o gartrefi incwm is (82%) ychydig yn llai tebygol o gytuno, ond ledled y DU mae dargyfeiredd ehangach wrth ystyried pwy sy'n gwneud penderfyniadau gwario, neu hyder y plentyn wrth reoli arian.

Rydym hefyd yn gweld ledled y DU, bod cytundeb ar ei isaf ble y mae rhieni yn penderfynu sut y mae arian y plentyn yn cael ei wario, ond hyd yn oed yma mae bron i bedwar o bob pump o blant yn dyheu i ddysgu, sy'n awgrymu y bydd **plant yn fwy parod i dderbyn y math cywir o ymyraethau ac addysg.**

Beth yw nodau bywyd y plant?

Ynghyd â dyheu i ddysgu am eu materion ariannol, mae gan blant 11-17 oed ystod eang o nodau bywyd. Yn gyffredinol, dim ond 8% nad oeddynt ag unrhyw un â'r nodau a awgrymir. Ymhlith y mwyaf poblogaidd oedd cael swydd ddiogel, neu fynd i brifysgol. Ledled y DU, cafwyd amrywiad sylweddol o ran amcanion yn ôl hyder wrth reoli arian, sy'n codi rhai cwestiynau ychwanegol i ni eu harchwilio yn ymwneud â'r rôl y mae hyder ariannol yn ei chwarae a'i berthynas â chanlyniadau eraill.

Mae'n ddiddorol nodi mai 22% yn unig yng Nghymru sydd â nod i fod yn annibynnol yn ariannol o'u rhieni o fewn y pum mlynedd nesaf, sy'n sylweddol is na'r 31% yr adroddwyd ledled y DU. Mae hyn yn cefnogi ymchwil blaenorol a oedd yn canfod mai cysyniad annibyniaeth oedd y gyrrwr allweddol ar gyfer y grŵp oed hwn, ond nad oedd y cyfrifoldebau ariannol a ddaw gydag ef yn cael ei ystyried yn rhan o'r annibyniaeth ehangach hwn.[28]

Siart 20: Nodau pum mlynedd y plant



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc YP13. Pa rai o'r nodau canlynol, os o gwbl, yr hoffech eu cyrraedd yn y 5 mlynedd nesaf? Sylfaen (11+): Pob un 11-17 n=321

28. *Mae'n bryd siarad: pobl ifanc ac edifeirwch ariannol* (Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2014)

Goblygiadau

Ar y cyfan, mae'r bennod hon wedi peintio darlun cadarnhaol o fwyafrif y plant yng Nghymru: mae ganddynt nodau bywyd uchelgeisiol, maent yn gwybod bod arian yn gyfyngedig, ac maent yn teimlo mai nhw sy'n rheoli eu sefyllfa ariannol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am bob plentyn. Amlygwyd yn y bennod hon rôl bosibl hyder wrth reoli arian, am fod llai o nodau gan blant llai hyderus a hwythau'n teimlo bod ganddynt lai o reolaeth. Gallai ymchwil pellach fod yn werthfawr i ddeall mwy am y berthynas rhwng gallu ariannol a hyder, i lunio ymyriadau i roi hwb i hyder ariannol plant.

Un peth arall a ddaeth i'r amlwg oedd y cysylltiadau rhwng hyder, cynilo rheolaidd a gwneud eich penderfyniadau ariannol eich hunain. Fel y trafodwyd ym Mhennod Un, mae'n bwysig cefnogi rhieni i rymuso eu plant a chefnogi plant i gynilo'n rheolaidd, ni waeth faint y gallant ei roi naill ochr.

Er nad yw'r cynilo'n digwydd mor aml ag y gallai, mae bron pob plentyn wedi cynilo am rywbeth ar ryw adeg neu ei gilydd. Mae hefyd yn gadarnhaol fod hyd yn oed y rheini nad ydynt fel arfer yn cynilo yn disgwyl gwneud hynny pan gânt arian annisgwyl.

Mae mwyafrif y plant, ac yn enwedig y rheini mewn teuluoedd incwm isel, yn ofalus am ddyled ac am or-ddyledusrwydd. Mae hyn yn benodol o ddiddorol yng nghyd-destun yr Arolwg Gallu Ariannol i oedolion a ganfu mai oedolion ifanc rhwng 18 a 24 oed sy'n fwyaf tebygol o fynd i or-ddyledusrwydd.[29] Mae hyn hefyd o ddiddordeb am fod data gor-ddyledusrwydd 2017 yn dangos mai Cymru, ar 17.7%, yw'r uchaf o'r cenhedloedd o gymharu â chyfartaledd y DU sef 15.9%.[30] Awgryma hyn y gall fod yn werthfawr ymchwilio ymhellach i ddadansoddi'r ddealltwriaeth o fenthyca 'da' a 'gwael' a'r agweddau arnynt – h.y. benthyca am dreuliant yn erbyn benthyca am fuddsoddiad neu fudd tymor hir – a deall beth sy'n newid yn ystod y cyfnod pontio i oedolaeth. Gall fod lle hefyd i archwilio awgrymau mater dyled yn fanylach gyda phob plentyn drwy addysg yn yr ysgol. Mae'r Arolwg Gallu Ariannol i oedolion hefyd yn amlygu bod perthynas glir i oedolion rhwng cynilo, gwario a benthyca. Mae hyn yn cefnogi'r syniad na ddylid addysgu plant am y cysyniadau hyn ar eu pennau eu hunain ac yn hytrach y dylid cydgysylltu unrhyw addysgu am y tri.

Roedd annibyniaeth ariannol yn fater a ailymddangosodd yn y bennod hon. Nid yw rhai o'r plant sy'n agosaf i fod yn oedolion yn dangos arwyddion o annibyniaeth ariannol, fel talu eu biliau annisgwyl eu hunain, neu ddymuno bod yn rhydd o ddibynnu'n ariannol ar eu rhieni yn y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn pwysleisio eto bwysigrwydd addysg ariannol 'mewn union bryd', gan roi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc i fynd i'r afael â'r heriau go iawn y byddant yn eu hwynebu wrth iddynt ysgwyddo cyfrifoldebau ariannol llawn oedolion.

29. *Gallu Ariannol Oedolion Ifanc* (Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2016)
30. http://overindebtednessmap.org/

Pennod 3: Beth mae plant yn ei wybod am arian

Cryfderau i adeiladu arnynt:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwybod am y cynhyrchion ariannol mwyaf cyfarwydd, fel cyfrifon banc a chardiau credyd a debyd.
- Mae'r rhan fwyaf o blant yng Nghymru yn deall bod gwerth i arian (roedd 60% o rieni plant 4 i 6 oed ac 88% o rieni plant 7 i 17 oed yn credu bod eu plant yn deall hyn). Roedd y rhan fwyaf yn deall hefyd am beth y mae angen talu yn ein cymdeithas, fel biliau cyfleustodau, rhent a morgeisi.

Ledled y DU, mae rhai pwyntiau'n amlycach:

- Ceir naid mewn gwybodaeth a chysylltiad ag arian pan fydd plentyn yn 6 oed.
- Mae plant sy'n gwneud eu penderfyniadau ariannol eu hunain yn meddu ar well gwybodaeth a dealltwriaeth ariannol mewn llawer o feysydd.
- Mae gan blant sy'n ariannol hyderus wybodaeth ariannol well ar draws yr amrywiaeth o fesurau.

Mae angen gwaith:

- Er bod y rhan fwyaf o blant yn gwybod am gynhyrchion ariannol cyfarwydd, mae bwlch yn y wybodaeth am gynhyrchion mwy cymhleth. Er enghraifft, ni allai 22% o blant 14 i 17 oed nodi a oedd 'buddsoddiad' yn gwneud i'w harian dyfu neu a oedd yn rhywbeth yr oedd angen ei dalu'n ôl. Bydd yn ddiddorol olrhain a fydd hyn yn newid yng ngoleuni'r cymhwyster TGAU Mathemateg – Rhifedd newydd a gyflwynwyd yng Nghymru o 2015.
- Roedd bwlch yn yr wybodaeth am gysyniadau cymharol syml fel llog a chwyddiant, a dim ond 69% o blant 12 i 17 oed yng Nghymru yn gwybod mai 'chwyddiant' oedd y term am brisiau'n codi yn y siopau.
- Dim ond 46% o blant 12 i 17 oed a atebodd yn gywir gwestiwn rhifiadol yn ymwneud â llog a chwyddiant.
- Roedd un o bob naw (11%) plentyn 12 i 17 oed yn methu nodi'n gywir o edrych ar gyfriflen banc faint oedd yn y cyfrif, er bod hyn yn well o lawer nag y mae ar draws y DU gyfan (21%).
- Roedd darllen slip talu'n achosi anawsterau i blant 14 i 17 oed: Ni allai 50% adnabod cyfraniadau pensiwn ac ni allai 58% nodi faint oedd wedi'i dalu.
- Dim ond 71% o rieni plant 4 i 6 oed sy'n dangos i'w plant sut maent yn talu am bethau, o gymharu ag 83% o rieni plant 7 i 17 oed.

Deall cysyniadau a chynhyrchion ariannol

A ydy plant yn deall sut mae'r prif gynhyrchion ariannol yn gweithio?

Mae plant yn deall y cynhyrchion ariannol mwyaf cyfarwydd, ond mae bwlch mewn addysg am gynhyrchion a chysyniadau llai cyfarwydd. Ar y cyfan, mae 84% o blant 7 i 11 oed yng Nghymru yn gwybod beth yw cyfrif banc. O ganlyniadau ledled y DU, gwelwn fod plant sy'n cynilo neu sy'n cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu harian hefyd yn fwy tebygol o wybod.

Gofynnom i blant 14 i 17 oed ddweud wrthym a oedd cynhyrchion ariannol penodol naill ai'n helpu eu harian i dyfu, neu fod angen eu talu'n ôl yn nes ymlaen. Gallai'r rhan fwyaf o blant ateb yn gywir am y cynhyrchion cyfarwydd fel cyfrifon cynilo a morgeisio, ond roedd llai'n gwybod am gynhyrchion cymhlethach fel buddsoddiadau a bondiau llywodraeth (Siart 21). Eto, ledled y DU, roedd plant sy'n hyderus yn rheoli arian yn fwy tebygol o ateb y cwestiynau'n gywir na'r rheini â llai o hyder (Siart 22).

Siart 21: A ydy'r cynhyrchion ariannol hyn yn gwneud i'ch arian dyfu neu a oes angen eu talu'n ôl yn nes ymlaen?



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc YP19 (C). Edrychwch ar y rhestr hon, a dewiswch pa rai sy'n gwneud i'ch arian dyfu, a pha rai sy'n rhoi arian i chi'n awr sy'n rhaid ichi ei dalu'n ôl yn nes ymlaen...? Mae anghywir yn cynnwys Ddim yn Gwybod. CYP 14+ oed . Sylfaen: Pawb 14-17 oed n=211

Mae plant hefyd yn deall y gwahaniaeth rhwng debydau uniongyrchol, a chardiau debyd a chredyd. Ar y cyfan, roedd 94% o blant 14 i 17 oed yn gwybod bod debydau uniongyrchol yn cymryd arian o'u cyfrif banc bob mis a llwyddodd 95% i ateb cwestiwn yn gywir am y gwahaniaeth rhwng cardiau credyd a debyd.

Fodd bynnag, er bod plant yn ymwybodol o'r cynhyrchion sylfaenol, mae un o bob naw o hyd (11%) o blant 12 i 17 oed yng Nghymru yn methu nodi'n gywir faint oedd mewn cyfrif banc o edrych ar gyfriflen banc, er bod hyn yn llawer is na'r 21% a adroddwyd ledled y DU. Fel y gellid ei ddisgwyl, mae plant hŷn yn llai tebygol o gael hyn yn anghywir, ond serch hynny, roedd 8% o'r rheini a oedd yn 16-17 oed hefyd yn anghywir. Mae hyn yn debyg i'r 10% o bobl 18 i 24 oed yng Nghymru a atebodd y cwestiwn hwn yn anghywir yn Arolwg Gallu Ariannol 2015 i oedolion ledled y DU[31]. Gwelwn hefyd o ganlyniadau ledled y DU fod plant mewn aelwydydd incwm isel a'r rheini nad ydynt byth yn cynilo yn fwy tebygol o ateb hyn yn anghywir, a bod y rheini sy'n fwy hyderus yn fwy tebygol o ateb yn gywir.

31. Mae'n bwysig nodi nad oedd y bobl 18 i 24 oed a gafodd hyn yn anghywir wedi gwneud hyn am eu bod yn defnyddio bancio symudol yn unig. *Gallu Ariannol yn y DU 2015* (y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2015)

Nid oeddem yn disgwyl i blant ieuengach wybod am gynhyrchion ariannol, ond gwnaethom ofyn i'w rhieni pa mor aml y byddent yn dangos i'w plentyn y gwahanol ffyrdd sydd o dalu am bethau. Dywedodd 71% o rieni plant 4 i 6 oed eu bod yn gwneud hyn weithiau neu'n aml. Mae hyn o gymharu ag 83% o rieni plant 7 i 17 oed; awgryma hyn fod cyfle i rieni ddechrau dangos i blant yn ieuengach.

A ydy plant yn deall terminoleg a chysyniadau ariannol?

Mae plant yn deall rhai termau a chysyniadau ariannol – ond dim o gwbl yr holl rai hynny y mae'n debygol y bydd eu hangen arnynt mewn oedolaeth. Gofynasom gwestiwn i blant 12-17 oed a gynlluniwyd i weld a oeddent yn deall cysyniadau a thermau ariannol (Ffigur 2).

Ffigur 2: Cwestiwn cysyniadau a thermau ariannol

A allwch ddewis y gair sy'n gweddu orau i'r disgrifiad hwn?

- Y swm y mae pris pethau mewn siopau yn cynyddu
- Yr arian sy'n cael ei ychwanegu at gynilion gan fanciau neu gymdeithasau adeiladu
- Yr arian y mae pobl yn ei dalu i'r llywodraeth
- Yr arian a gewch pan fyddwch yn ymddeol o'r gwaith
- Swm yr arian sydd gennych yn eich cyfrif banc

1. Llog	**2.** Pensiynau	**3.** Chwyddiant	**4.** Balans
5. Treth	**6.** Budd-dâl	**7.** Credyd	**8.** Debyd

Ar y cyfan, roedd o leiaf pedwar o bob pum plentyn yn deall ystyr 'treth' a 'pensiwn', ond roedd llai na saith o bob deg wedi deall 'chwyddiant' a 'balans' yn iawn (Siart 22). Yn nodweddiadol, dywedodd y plant nad oeddent yn gwybod, yn hytrach na dewis yr ateb anghywir er bod 6% yn meddwl mai'r pris yn cynyddu mewn siopau oedd 'llog' a 6% yn meddwl mai'r swm sydd gennych yn eich cyfrif banc oedd 'credyd' (gan wybod efallai bod y cyfrif mewn credyd, neu gysylltu'r term â chael credyd ar eu ffôn symudol). Mae plant 16–17 oed a'r rheini mewn aelwydydd incwm uchel yn fwy tebygol o fod yn gywir.

Mae ychydig o waith i'w wneud yma i wella gwybodaeth am y pethau sylfaenol hyn, ond gallai fod yn ddiddorol gweld a fydd hyn yn newid yng ngoleuni'r cymhwyster TGAU Mathemateg – Rhifedd newydd a gyflwynwyd yng Nghymru o 2015. Mae'r cymhwyster hwn yn gyfle i asesu sgiliau a gwybodaeth y dysgwyr, gan gynnwys agweddau fel egwyddorion sylfaenol cyllid personol a chartref, llog syml ac elw a cholled, ymhlith eraill.

Siart 22: A allwch ddewis y gair sy'n gweddu orau i'r disgrifiad hwn?



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc YP18 (C). A allwch ddewis y gair sy'n gweddu orau i'r disgrifiad hwn...? Mae anghywir yn cynnwys Ddim yn Gwybod. CYP 12+ oed . Sylfaen: Pawb 12-17 oed n=289

* Maint sylfaen isel: 66

Y prawf terfynol i weld a oedd y plant y cyfwelwyd â hwy yn deall cysyniadau ariannol oedd dangos slip talu i'r plant 14 i 17 oed a gofyn iddynt nodi faint a oedd wedi'i dalu tuag at bensiwn y gweithiwr, a faint yr oedd wedi'i ennill y mis hwnnw. Roedd y ddau beth hyn yn anodd, a dim ond 50% yng Nghymru'n ateb y cwestiwn cyntaf yn gywir, a 42% yn ateb yr ail gwestiwn yn gywir. Ledled y DU, roedd atebion cywir wedi tueddu i fod ar eu hisaf ymhlith y rhai 14 a 15 oed, y rheini mewn aelwydydd incwm isel a'r rheini heb lawer o hyder. Er bod plant 16 i 17 oed yng Nghymru wedi gwneud ychydig yn well, dim ond 57% o hyd a atebodd y cwestiwn pensiwn yn gywir a 46% a atebodd y cwestiwn tâl yn gywir. Mae hyn yn peri gofid o ystyried bod y plant hyn yn debygol o fod yn gweithio cyn hir, os nad ydynt eisoes yn gweithio.

A all plant gyfrifo effeithiau llog a chwyddiant?

Rhoesom broblemau i'r plant eu datrys, mewn perthynas â llog a chwyddiant; cafodd cyfran uchel ohonynt anhawster gyda'r cwestiynau (Ffigur 3).

Ffigur 3: Cwestiynau llog a chwyddiant

Llog: Tybiwch eich bod wedi rhoi £100 mewn cyfrif cynilo, a'ch bod yn sicr o gael 2% y flwyddyn o gyfradd llog. Nid ydych yn gwneud unrhyw daliadau pellach i'r cyfrif hwn ac nid ydych yn tynnu arian ohono o gwbl. Faint fyddai yn y cyfrif ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, ar ôl talu'r llog? (11–17)

Llog a chwyddiant cyfunol: Os yw'r gyfradd chwyddiant yn 5% a'r gyfradd llog a gewch ar eich cynilion yn 3%, a fydd gan eich cynilion fwy o bŵer prynu, llai o bŵer prynu neu'r un faint o bŵer prynu ymhen blwyddyn? (12–17)

Dim ond 57% o blant 11–17 oed yng Nghymru a atebodd y cwestiwn 'llog' yn gywir (er bod hyn yn llawer gwell na ffigur y DU sef 50%) a 46% o'r plant 12 i 17 oed a atebodd y cwestiwn 'llog a chwyddiant cyfunol' yn gywir. Yn y ddau achos, mae incwm yn ffactor, a phlant mewn aelwydydd incwm is yn fwy tebygol o ateb yn anghywir. Roedd nifer o'r plant yn adnabod y termau yn Ffigur 2 yn gywir ond serch hynny nid oeddent yn gallu ateb y cwestiynau hyn yn gywir. Mae'n bosibl bod rhai wedi 'dyfalu'n lwcus' am y derminoleg ond mae hyn yn fwy tebygol o awgrymu nad oedd ganddynt y sgiliau rhifedd i ateb y cwestiynau hyn yn gywir, neu nad oeddent yn gallu eu cymhwyso mewn sefyllfa ariannol ymarferol.

O gymharu'r canlyniadau hyn â chanlyniadau oedolion 18-24 oed o'r Arolwg Gallu Ariannol Oedolion yn 2015, dangosir bod hwn yn faes sy'n peri trafferth i oedolion ifanc hefyd. Ar y cyfan, atebodd 58% y cwestiwn llog yn gywir a dim ond 43% a atebodd y cwestiwn llog a chwyddiant cyfunol yn gywir.[32] Mae hyn, a'r canfyddiad uchod bod cyfrannau tebyg o oedolion ifanc yn cael trafferth yn darllen cyfriflen banc, yn taflu goleuni newydd ar ganlyniadau'r plant: am fod oedolion ifanc yn cael trafferth gyda'r cwestiynau hyn, efallai bod yr achos o blaid addysg ariannol gynharach yn cael ei gryfhau am nad ydynt fel petaent yn 'dysgu yn y gwaith' pan fyddant yn oedolion.

Rhoesom y cwestiwn a ddangosir yn Ffigur 4 i'r plant 4 i 6 oed, a gynlluniwyd i weld a allent adnabod gwerth y darnau arian a ddangoswyd a gwneud y swm i benderfynu pa ddarnau arian yr oedd eu hangen. Ar y cyfan, atebodd 71% yng Nghymru yn gywir. Dangosodd canfyddiadau'r DU gyfan, fel y disgwyliech, fod plant 6 oed yn fwy tebygol o ateb yn gywir na phlant 4 oed.

Mae hyn fel petai'n awgrymu naid sylweddol mewn sgiliau a gwybodaeth ariannol pan fydd plentyn yn 6 oed. Mae'n ddigon posibl fod hyn yn gysylltiedig â chyfnodau datblygu, neu ddwyster cynyddol yr addysg a gânt yn yr oedran hwn. Hefyd, sylwn fod Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant i blant 3 i 7 oed yn cynnwys tasgau fel defnyddio darnau arian i dalu am eitemau, a allai gyfrannu at y cynnydd mewn sgiliau ariannol.

Ffigur 4: Cwestiwn darnau arian ac adio – plant 4 i 6 oed

32. *Gallu Ariannol yn y DU 2015* (y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2015)

Deall gwerth arian

A ydy plant yn gwybod bod gwerth i arian?

Ar y cyfan, roedd 60% o rieni plant 4 i 6 oed, ac 81% o rieni plant 7 i 17 oed, yn credu bod eu plant yn deall 'yn dda iawn' neu'n 'eithaf da' fod gwerth i arian. Fel y gallwn ei weld yn Siart 23, mae hyn yn amrywio yn ôl oedran ac incwm. Ledled y DU gyfan, roedd hyn hefyd yn amrywio yn ôl ymddygiad cynilo'r plentyn, ei gyfrifoldeb am wneud penderfyniadau a'i hyder yn rheoli arian.

Siart 23: Canran o rieni sy'n dweud bod eu plant yn deall bod gwerth i arian



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc PP24a. (PP) Yn eich barn chi, pa mor dda ydy'r plentyn yn deall bod gwerth i arian? Atebodd rhieni i blant 4 i 6 Atebodd rhieni i blant 7 i 17. Y rheini a atebodd 'Da iawn' neu 'Eithaf da'. Sylfaen: Pawb 4-6 n=116, Pawb 7-17 n=472

* Meintiau sylfaen is: 89 (incwm uchel).

A ydy plant yn deall y gwahaniaeth rhwng 'eisiau' ac 'angen'?

Roedd arnom eisiau deall pa mor dda roedd plant yn deall y gwahaniaeth rhwng eitemau sy'n angenrheidiol, a'r rheini sy'n 'braf eu cael'. I wneud hynny, gosodom sefyllfa i blant 7 i 11 oed sef estron 16 oed o'r enw Zig yn dod i'r Ddaear ac yn gorfod gwneud amrywiaeth o benderfyniadau ariannol (gweler Siart 24). Prin oedd yr anhawster a gafodd y rhan fwyaf o'r plant yn deall beth fyddai ei angen ar Zig i fyw ar y Ddaear, a dim ond ychydig a oedd yn credu y byddai angen eitemau llai pwysig arno fel ffôn symudol neu'r rhyngrwyd. Ni allwn fod yn siŵr i ba raddau mae'r gallu hwn i ddeall beth fyddai ei angen ar yr estron yn golygu deall y gwahaniaeth rhwng eisiau ac angen ym mywydau'r plant eu hunain, ond mae'n rhoi arwydd bod y plant yn deall bod rhai pethau'n angenrheidiol.

Siart 24: Mae Zig yn 16 oed, ac mae'n estron a ddaeth o blaned arall i fyw ar y Ddaear. Gall ddewis hyd at dair o'r eitemau a welwch isod. A allwch ddewis y tri pheth pwysicaf sydd eu hangen arno i fyw yma, yn eich barn chi?



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc C2 (C). Mae Zig yn 16 oed, ac mae'n estron a ddaeth o blaned arall i fyw ar y Ddaear. Gall ddewis hyd at dair o'r eitemau a welwch isod. A allwch ddewis y tri pheth pwysicaf sydd eu hangen arno i fyw yma, yn eich barn chi? CYP 7-11 . Sylfaen: Pawb 7-11 oed n=187

Gwybod sut mae cyllidebu

A all plant wneud cynllun gwario – a chadw ato?

Gofynasom i'r holl rieni a oeddent yn credu y byddai eu plentyn yn gallu gwneud cynllun ar gyfer sut i wario £5 ar wibdaith, ac yna a fyddai'n gallu cadw at y cynllun. Gofynasom yr un cwestiwn i'r rhai 7 i 17 oed. Ymhlith y rhieni, roedd y gyfran a gredai y byddai eu plentyn yn cadw at gynllun yn cynyddu ag oedran y plentyn, ond pan ofynnwyd i'r plant eu hunain, nid oes unrhyw batrwm oedran clir yn amlwg. Gallai hyn awgrymu bod gan rieni a'u plant wahanol farn am ba mor dda y gall y plant gyllidebu.

Siart 25: A all plant wneud cynllun i wario £5



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc NQ98. (PP) Dychmygwch eich bod wedi rhoi £5 i'ch plentyn ei wario ar drip ysgol neu wibdaith, a fyddai ef/hi yn cynllunio ymlaen llaw faint i'w wario ar wahanol bethau fel losin neu anrhegion? 4-6, 7-17. NCYP10 (C). Dychmygwch eich bod wedi cael £5 i'w wario ar drip ysgol. A fyddech yn cynllunio sut i wario'r arian ac yna'n cadw at y cynllun hwnnw? Er enghraifft, a fyddech yn cyfrifo faint ydych chi am ei wario ar wahanol bethau fel losin neu anrhegion. Pawb CYP 7-17. Sylfaen: Holl rieni plant 4-6 oed n=110, holl rieni plant 7-17 oed n=438, holl blant 7-17 oed n=476

Gofynasom hefyd i blant 14 i 17 oed pa mor aml y maen nhw'n cynllunio sut y maent am dalu am y pethau sydd eu hangen arnynt. Ar y cyfan, dywedodd 37% yng Nghymru 'bob amser' neu 'yn aml', dywedodd 53% 'weithiau' a dywedodd 9% 'byth' neu 'prin iawn'. Mae cynllunio 'bob amser' neu 'yn aml' yn uwch ymhlith plant hŷn sy'n 16-17 oed.

A all plant egluro'r dewisiadau a wnânt?

Eto, mae gallu plant i egluro eu dewisiadau yn cynyddu ag oedran. Ar y cyfan, dywed 14% o rieni plant 4 i 6 oed a 41% o rieni 7 i 17 oed fod eu plant bob amser yn gallu egluro'r dewisiadau a wnânt pan fyddant yn gwario eu harian (Siart 26).

Roeddem hefyd yn meddwl tybed i ba raddau y byddai eu cyfoedion yn dylanwadu ar ddewisiadau'r plant, felly gofynasom i blant 11 i 17 oed a oeddent yn ystyried a fyddai eitem yn cael sêl bendith eu ffrindiau cyn iddynt ei phrynu, a dywedodd 54% eu bod yn gwneud hynny weithiau neu'n aml. Cynyddodd hyn i 62% o blant mewn aelwydydd incwm uchel.

Siart 26: Canran o rieni y gall eu plant bob amser egluro eu dewisiadau gwario



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc PP25c. (PP) A all y plentyn egluro'r dewisiadau a wna pan fydd yn gwario ei arian? Lle mae ei arian ei hun gan y plentyn neu'r plentyn yn cael ei arian ei hun Sylfaen y rheini sy'n ateb 'Bob amser': Pawb 4-6 n=105, Pawb 7-17 n=431

* Meintiau sylfaen is: 98 (16-17 oed)

A ydy plant yn gwerthuso 'gwerth am arian'?

Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o blant 11 i 17 oed yn ystyried a ydy rhywbeth y mae arnynt eisiau ei brynu yn rhoi gwerth am arian: dywedodd 77% eu bod yn gwneud hynny weithiau (44%) neu yn aml (33%). Maent yn fwy tebygol o feddwl am werth am arian os ydynt yn cynilo'n rheolaidd neu os rhoir arian rheolaidd iddynt.

Gofynasom hefyd a oeddent yn siopa o gwmpas i gymharu prisiau ac ar y cyfan dywedodd 79% yng Nghymru eu bod yn gwneud hynny weithiau neu'n aml. Mae'r gyfran hon yn uwch ymhlith plant 16-17 oed (85%), nag ymhlith y rhai 12-15 oed (77%), yn ogystal ag ymhlith y rheini o aelwydydd incwm uchel (85%[33]).

Deall rôl arian mewn cymdeithas

A ydy plant yn deall beth sydd am ddim ac am beth y byddwn ni'n talu?

Dengys Siart 27 fod plant yn deall yn dda'r hyn y mae angen talu amdano yn ein cymdeithas.

Ar gyfer pob un o'r eitemau, mae dros naw o bob deng plentyn yng Nghymru'n rhoi'r ateb cywir, gyda chanlyniadau yng Nghymru ychydig yn fwy cadarnhaol na'r rheini a gafwyd yn gyffredinol ledled y DU.

Siart 27: A ydy plant yn gwybod pa rai o'r rhain y mae oedolion yn eu cael am ddim fel arfer ac am ba rai y byddant fel arfer yn talu?



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc YP28b (C). Pa rai o'r pethau canlynol y mae'r rhan fwyaf o oedolion yn talu amdanynt, a pha rai y mae'r rhan fwyaf o oedolion yn eu cael am ddim...? Mae anghywir yn cynnwys Ddim yn Gwybod. CYP 14+ oed . Sylfaen: Pawb 14-17 oed n=211

Gofynasom hefyd i blant 14 i 17 oed a oeddent yn gwybod beth oedd canlyniadau peidio â thalu'r Dreth Gyngor. Ar y cyfan, roedd tri chwarter (73%) yn gywir. Cynyddodd hyn i 83% ymhlith plant 16 i 17 oed (mewn perthynas â 62% ar gyfer plant 14-15 oed).

33. Maint sylfaen isel: 66

A oes gan blant synnwyr cyffredin wrth ystyried hysbysebu?

Mae rhieni'n weddol siŵr fod eu plant 7 i 17 oed yn deall hysbysebu: Cred 84% yng Nghymru fod eu plant yn ei ddeall yn 'eithaf da' neu'n 'dda iawn'. Mae rhyw gysylltiad rhwng oedran ac incwm aelwyd a dealltwriaeth, am fod plant hŷn a'r rheini o aelwydydd incwm uwch yn fwy tueddol o ddeall (Siart 28). Hefyd, ledled y DU, rydym wedi gweld bod hyder a chyfrifoldeb ariannol hefyd yn ffactorau allweddol.

Siart 28: Canran o rieni sy'n dweud bod eu plant yn deall yn dda iawn neu'n eithaf da fod hysbysebion yn ceisio gwerthu pethau iddynt.



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc PP24d (PP). Pa mor dda ydych chi'n credu bod [Enw'r plentyn] yn deall bod hysbysebion a rhai rhaglenni teledu yn ceisio gwerthu pethau iddynt? Sylfaen CYP 7-17 Y rheini'n ateb 'Da iawn neu eithaf da': Holl rieni plant 7-17 n=469

Meintiau sylfaen isel: 99 (incwm isel); 88 (incwm uchel)

Fel y gellid ei ddisgwyl, rhieni plant 4 i 6 oed yw'r lleiaf tebygol o gredu bod eu plant yn deall hysbysebu, a dim ond 44% yn dweud bod eu plant yn ei ddeall yn dda iawn neu'n eithaf da.

Gofynasom hefyd i blant 4 i 6 oed yn uniongyrchol am eu meddyliau am hysbysebu: Roedd 51% yn credu mai diben hysbysebion oedd dangos pethau ichi y gallech eu prynu, a dim ond 21% yn credu mai eu diben oedd gwneud ichi brynu pethau. Roedd 28% arall yn meddwl mai am hwyl yn unig oedden nhw, neu am egwyl.

Dylid ystyried y canlyniadau hyn yng nghyd-destun adroddiad Ofcom yn 2015 a ddatgelodd fod chwarter o blant 12 i 15 oed sy'n chwarae gemau yn dweud eu bod yn gweld hysbysebion 'talu i ennill' yn yr holl neu'r rhan fwyaf o'r gemau a chwaraeant, a bod chwarter o rieni'n poeni am y pwysau a roir ar eu plentyn i wario arian ar-lein. Dim ond 16% o blant 8 i 11 oed a 31% o blant 12 i 15 oed sy'n gallu nodi'n gywir hysbysebion a arddangosir mewn canlyniadau chwilio ar-lein, ac roedd llai na hanner yn deall y gallai hysbysebion gael eu gwneud yn bersonol iddyn nhw.[34]

Gofynnwyd hefyd i rieni plant 7 i 16 oed a oeddent yn siarad â'u plant am y ffaith bod hysbysebu'n digwydd ar-lein a dywedodd 77% eu bod yn gwneud hynny weithiau neu'n aml. Fodd bynnag, mae hyn yn gwrthgyferbynnu â dim ond 46% o rieni plant 4-6 oed sy'n trafod yn yr un modd rôl hysbysebu â'u plentyn ac mae hynny efallai am fod plant ieuengach yn cael eu hystyried gan y rhan fwyaf o rieni yn rhy ifanc i fod ar-lein heb oruchwyliaeth a chredir bod y plant 16 i 17 oed eisoes yn ymwybodol.

Yn wahanol i'r DU gyfan, y rhieni hynny o deuluoedd incwm isel sy'n fwyaf tebygol o drafod rôl hysbysebu (dim gwahaniaeth yn ôl incwm y DU gyfan) - mae hyn yn ailadrodd canfyddiad y DU gyfan ymhlith plant 4 i 6 oed.

34. *Plant a Rhieni: Adroddiad Defnyddio'r Cyfryngau ac Agweddau*(Ofcom, 2015)

Goblygiadau

Mae angen ar lawer o blant fwy o addysg am gynhyrchion, cysyniadau a therminoleg ariannol. Mae dadl o blaid addysgu sy'n canolbwyntio ar sgiliau bywyd ymarferol fel darllen balans banc, yn enwedig drwy ysgolion.

Yng Nghymru, mae'n bosibl y bydd cyflwyno Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd ynghyd ag addysgu cyntaf y TGAU Mathemateg – Rhifedd newydd o fis Medi 2015 yn dylanwadu ar y lefelau gwybodaeth hyn yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae'r cymwysterau hyn yn gyfle i asesu sgiliau a gwybodaeth dysgwyr, gan gynnwys agweddau fel:

- Egwyddorion sylfaenol cyllid personol a chartref, gan gynnwys tanwydd a biliau eraill, hur bwrcas, disgownt, TAW, trethiant, pryniannau gorau, cyflogau a thâl, ad-daliadau benthyciad, morgeisi, cyllidebu, cyfraddau cyfnewid a chomisiynau;
- llog syml;
- elw a cholled;
- arian tramor a chyfraddau cyfnewid; a
- gwneud cyfrifiadau mewn perthynas â menter, cynilo a benthyca, buddsoddi, adbrisiant a dibrisiad.

Pryderir yn benodol fod cyfran o blant sy'n ddigon hen i fod yn gweithio y tu allan i'r cartref wedi cael trafferth yn darllen slip talu. Ceir tystiolaeth o Arolwg Gallu Ariannol Oedolion 2015 fod oedolion ifanc hefyd yn cael trafferth yn rhai o'r meysydd hyn, felly mae'n amlygu mor bwysig yw dysgu am y cynhyrchion a chysyniadau hyn i osgoi cyrraedd oedolaeth heb lefel dda o wybodaeth ariannol ac mae efallai'n cryfhau'r achos o blaid addysg ariannol gynharach am nad yw oedolion ifanc fel petaent yn 'dysgu yn y gwaith' pan fyddant yn oedolion.

Mae plant yn siopwyr cymharol gall sy'n gwybod gwerth arian ac sy'n tueddu i siopa o gwmpas, ond efallai hefyd fod rhieni'n meddwl bod ganddynt fwy o allu nag sydd ganddynt i ddeall a gwrthsefyll hysbysebu – mae lle i rieni siarad am y pethau hyn yn amlach a phan fydd eu plant yn ieuengach. Wedi'r cyfan, mae hyd yn oed oedolion yn meddwl nad yw hysbysebu'n dylanwadu arnynt – ond mae'r naill astudiaeth ar ôl y llall yn dangos ei fod, yn enwedig ar-lein.

Pennod 4: Sut mae plant yn dysgu am arian

Cryfderau i adeiladu arnynt:

- Cred bron yr holl (97%) rieni fod arferion ariannol wedi'u sefydlu erbyn 18 oed a chred 94% ei bod yn bwysig iddynt helpu eu plentyn i ddysgu sut mae rheoli ei arian.
- Teimla saith o bob deg (72%) rhiant eu bod yn gallu dangos esiampl dda i'w plant yn ariannol.
- Mae'r rhan fwyaf o blant 7–17 oed (87%) yn teimlo'n gyffyrddus yn siarad am arian gyda'r bobl bwysig yn eu bywydau, sef eu rhieni yn bennaf, ac at eu rhieni y byddent yn mynd am gyngor am arian.
- Mae bron yr holl blant yn gweld eu rhieni'n talu am bethau (99% o blant 7 i 11 oed) ac mae llawer yn gweld agweddau eraill ar gyllid cartref fel gosod cyllideb a siopa o gwmpas.
- Ledled y DU, mae plant sy'n cofio cael gwersi rheoli arian yn yr ysgol yn dangos sgoriau uwch am nifer o ddangosyddion o ymddygiad neu wybodaeth ariannol gadarnhaol (er bod angen archwilio ymhellach y berthynas lawn rhwng y rhain).
- Cwblhaodd Estyn adolygiad thematig o addysg ariannol mewn ysgolion yng Nghymru yn 2017 a bydd hwnnw'n helpu i ddatblygu'r gwaith mewn ysgolion.

Mae angen gwaith:

- Cred rhieni y gallant ddylanwadu ar ymddygiad eu plant o gwmpas arian ond dim ond hanner (49%) yng Nghymru sy'n credu y bydd eu plant yn tyfu i fyny i fod fel y maen nhw gydag arian.
- Nid yw un o bob tri rhiant yn hyderus yn siarad â'u plant am arian ond byddai 92% o blant yn mynd at eu rhieni am gyngor ariannol gan ddangos felly fod angen cefnogi rhieni â'r sgyrsiau hyn.
- Gall llai na hanner o rieni arddangos ymddygiad cynilo 'da', gyda 46% yn dweud eu bod yn cynilo bob mis neu'r rhan fwyaf o fisoedd; mae 24% o rieni wedi mynd i or-ddyledusrwydd.
- Mae un o bob pum rhiant i blant 12 i 17 oed heb siarad â hwy erioed neu brin o gwbl am risgiau benthyca ac effeithiau dyled.
- Er y dystiolaeth o blaid dechrau'n gynnar wrth siarad â phlant am arian, dim ond lleiafrif o rieni sy'n credu y dylai plant o dan 8 oed gael amrywiaeth o brofiadau addysg ariannol. Er enghraifft, dim ond 14% sy'n credu y dylid addysgu plant 5 i oed am filiau, a dim ond 3% yw'r ffigur hwn ar gyfer y plant dan 5.
- Nid yw un o bob pum rhiant yn credu y dylid caniatáu i blant wneud camgymeriadau nes eu bod yn 16 oed a hŷn. Gall fod rhai rhieni sy'n anghyffyrddus â'r syniad bod gwneud camgymeriadau'n rhan o'r broses o ffurfio arferion ac agweddau.
- Mae siarad â phlant yn cynyddu ag oedran y plant, ond eto dim ond 48% o rieni plant 16 i 17 oed o hyd sy'n dweud eu bod yn trafod eu cyllid cartref yn agored â'u plant. Awgryma hyn fod cyfleoedd yn cael eu colli i'r plentyn ddysgu am gyfrifoldeb ariannol oedolion.
- Dim ond 35% o blant 7 i 17 oed sy'n dweud eu bod yn cofio dysgu am reoli arian yn yr ysgol neu'r coleg ac nid yw hyn yn amrywio yn ôl oedran.

Cyngor a chyfarwyddyd

Â phwy y mae plant yn siarad am faterion ariannol?

Teimla'r rhan fwyaf o blant 7-17 oed yng Nghymru yn gyffyrddus yn siarad am arian gyda'r bobl bwysig yn eu bywydau. Pan ofynnwyd i'r plant â phwy y maent yn siarad am eu harian, dywedodd 87% eu bod yn siarad ag o leiaf un person arall am eu harian, a'u bod gan amlaf yn siarad â'u rhieni (Siart 29).

Gofynnwyd wedyn i'r plant at bwy y byddent yn troi petai angen cyngor arnynt am arian, a dywedodd 92% y byddent yn mynd at eu rhieni. Mae plant hefyd yn ystyried mai rhieni yw'r ffynhonnell fwyaf defnyddiol o gyfarwyddyd. Byddai ychydig yn defnyddio ffynonellau eraill fel ffrindiau (9%) neu aelodau eraill o'r teulu (14%) a byddai tua 5% yn gofyn i athrawon, yn mynd ar-lein neu'n gofyn i fanc neu sefydliad ariannol. Hyd yn oed ymhlith plant 16 i 17 oed, dim ond 6% a fyddai'n mynd at fanc am gyngor.[35]

Dim ond 4% a ddywedodd na fyddent yn gofyn am gyngor, sy'n galonogol. Ar y cyfan, mae'r canfyddiadau hyn yn cefnogi ymchwil blaenorol gan y GCA sy'n dangos bod pobl ifanc yn cael cyngor eu rhieni'n ddefnyddiol.[36]

Siart 29: Â phwy y mae plant yn siarad am arian



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc CYP17 (C). A ydych yn siarad am eich arian ag unrhyw rai o'r bobl ganlynol? Sylfaen CYP 7-17 CYP: Pawb 7-17 oed n=424.

*Meintiau sylfaen isel: 97 (aelwydydd incwm isel); 86 (aelwydydd incwm uchel)

Ymhlith plant 4 i 6 oed, dywed 78% yng Nghymru fod eu rhieni'n siarad â hwy am yr hyn y gwariant eu harian arno. Ledled y DU, mae hyn yn cynyddu ag oedran, ac mae plant sy'n hoff o gynilo yn fwy tebygol o siarad â'u rhieni na phlant sy'n hoff o wario. Gofynasom yr un cwestiwn i'w rhieni a chawsom ganlyniadau tebyg: dim ond 21% a ddywedodd nad ydynt byth yn siarad â'u plant; ledled y DU, roedd hyn yn fwy tebygol ymhlith plant 4 oed o'u cymharu â phlant 6 oed, aelwydydd incwm uchel, a rhieni plant sy'n dweud eu bod yn hoff o wario. Mae'n ddiddorol fod aelwydydd incwm uchel, ledled y DU, yn fwy tebygol o siarad â phlant 7 i 17 oed ond yn llai tebygol o siarad â phlant 4 i 6 oed.

Mae rhieni hefyd yn siarad â'u plant am ba yrfaoedd y gallent eu gwneud yn y dyfodol. Ar y cyfan, dim ond 3% o rieni plant 12-17 oed a ddywedodd eu bod byth neu'n brin yn siarad am yrfaoedd, a 66% yn dweud 'yn aml'; mae'r ffigur hwn yn llawer uwch na'r ffigur o 59% ar gyfer y DU gyfan. Mae trafodaethau aml am yrfaoedd yn cynyddu ag oedran y plentyn ac ag incwm y cartref.

35. Defnyddir y term 'cyngor' yma yn yr ystyr gyffredinol, nid cyngor ariannol a reoleiddir.
36. *Gallu Ariannol Plant 15-17 oed* (y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2013)

Cael gwybod am gyllid teuluol

Pa mor aml y dangosir elfennau o gyllid teuluol i blant?

Allan o'r holl dasgau ariannol sy'n digwydd yn y cartref, dangosir yn fwyaf aml i blant 11-17 oed sut y mae siopa o gwmpas i arbed arian (Siart 30). Mae hyn yn debygol am fod plant yn mynd gyda'u rhieni ar dripiau siopa neu'n eu gweld yn siopa ar-lein, a'r pwnc yn codi'n naturiol. Mae rhieni'n fwy tebygol o orfod gwneud penderfyniad penodol i ddangos un o'r tasgau eraill i blentyn, fel talu biliau neu osod cyllideb, felly mae'n galonogol bod llawer o rieni'n gwneud hynny o leiaf weithiau.

Efallai bod rhieni'n llai parod i ddangos i blant sut y mae edrych ar falans am na fyddant efallai am ddatgelu faint o arian sydd gan y teulu yn y banc. Fodd bynnag, fel y gwelsom ym Mhennod 1, mae 19% o blant nad ydynt yn cadw llygad ar eu cyllid a 30% pellach sy'n cadw llygad yn eu pen yn unig ac a allai elwa felly ar wersi mynych ar sut y mae darllen balans. Gwelsom hefyd ym Mhennod 3 fod 11% o blant 12-17 oed yn methu'n gywir â phennu'r balans o gyfriflen banc. Mae'r amlder y mae rhieni'n dangos y tasgau yn Siart 30 yn tueddu i gynyddu ag oedran ac, mewn rhai achosion, ag incwm y cartref.

Siart 30: Pa mor aml y mae rhieni yn dangos tasgau ariannol amrywiol i'w plentyn



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc PP27 (PP). Pa mor aml rydych chi'n dangos i [Enw'r plentyn]...? Cyllideb: 11-17 oed, Balans 7-17, Siop: 11-17, Biliau: 14-17 Sylfaen: Pawb – sylfeini'n amrywio

Gofynasom i'r plant 7 i 11 oed a oeddent wedi gweld eu rhieni'n talu am bethau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Ar y cyfan:

- Roedd 95% wedi gweld eu rhieni'n defnyddio arian parod (84% y DU)
- 81% cerdyn debyd (74% y DU)
- 49% cyfrif ar-lein (43% y DU)
- 34% cerdyn credyd (40% y DU)
- 12% ffôn symudol
- Dim ond 1% a oedd heb weld yr un o'r rhain

Ledled y DU, plant mewn aelwydydd incwm uchel yw'r mwyaf tebygol o weld eu rhieni'n talu yn y rhan fwyaf o'r ffyrdd hyn. Y rheini y mae eu rhieni'n penderfynu sut y maent yn gwario eu harian yw'r lleiaf tebygol o fod wedi gweld unrhyw un o'r dulliau hyn.

A ydy plant yn cael eu cynnwys yn newisiadau'r cartref?

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cael eu cynnwys yn rhai o'r dewisiadau a wneir yn eu cartrefi. Mae hyn yn galonogol am ei fod yn debygol fod rhywfaint o'r ddealltwriaeth a gaiff plant am werth arian, a'r dewisiadau sydd i'w gwneud, yn dod o gael eu cynnwys rhywfaint mewn penderfyniadau am arian. Mae hyn yn berthnasol i benderfyniadau am arian y plant eu hunain, ond hefyd i'r arian sy'n cael ei wario yn y teulu.

Dywedodd mwy na thri chwarter (77%) o blant 8 i 17 oed yng Nghymru eu bod yn cael dewis yn yr hyn i'w brynu wrth siopa am fwyd y teulu. Roedd hyn ar ei isaf ymhlith plant 8 i 11 oed. Yn wahanol i lawer o gwestiynau eraill, fodd bynnag, roedd y gyfran o blant sy'n cael dewis ar ei huchaf ymhlith aelwydydd incwm isel – sef 83% yn erbyn 76% ar gyfer aelwydydd incwm canolig a 72% ar gyfer aelwydydd incwm uchel. Yn yr un modd, mae'r gyfran sy'n cael dewis mewn gwibdeithiau yn is ymhlith yr aelwydydd incwm uchel hynny (74%, o gymharu ag 80% ar y cyfan).

Pa mor aml y mae rhieni'n siarad â phlant am gyllid y teulu?

Gofynasom i rieni plant 4 i 17 oed gyda phwy y maent yn trafod eu cyllid cartref yn agored:

- Mae 86% (o'r rheini sy'n briod neu sy'n byw gyda phartner) yn trafod cyllid â'u priod neu bartner
- 37% â'u rhieni neu aelodau eraill o'r teulu
- 33% â'u plant
- 23% â ffrindiau
- 7% â chydweithwyr

Dim ond 11% yng Nghymru a ddywedodd ei bod yn well ganddynt beidio â siarad am eu cyllid ag unrhyw rai o'r bobl hyn. Mewn aelwydydd incwm isel y mae'r rhieni'n lleiaf tebygol o siarad â'u plant, ac yn fwyaf tebygol o siarad â neb.

Mae siarad â phlant hefyd yn cynyddu ag oedran y plentyn, ond eto dim ond 48% o rieni plant 16 i 17 oed o hyd sy'n dweud eu bod yn trafod eu cyllid cartref yn agored â'u plant. Awgryma hyn fod cyfleoedd yn cael eu colli i'r plentyn ddysgu am gyfrifoldeb ariannol oedolion.

Gofynnwyd hefyd i rieni pa mor aml y byddent yn siarad â'u plentyn am agweddau penodol ar eu cyllid cartref (Siart 31). Mae tri o bob deg (30%) o rieni plant 4-10 oed yng Nghymru yn aml yn trafod o ble ddaw'r arian yn eu cartref â'u plentyn. Dywedodd mwy na thri o bob deg (31%) na fyddant byth yn trafod hyn neu brin y byddant yn trafod hyn, sy'n llawer uwch na'r 23% a adroddwyd ledled y DU.

Gofynnwyd i rieni plant 4 i 17 oed pa mor aml y byddant yn siarad â'u plentyn am y dewisiadau a wnânt wrth wario eu harian. Dim ond 38% yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn gwneud hynny'n aml a dywedodd 14% na fyddant byth yn siarad amdano neu brin y byddant yn siarad amdano. Mae hyn yn newid llai nag y gellid ei ddisgwyl ag oedran y plentyn, a dim ond 43% o rieni plant 16 i 17 oed yn gwneud hynny'n aml a 3% yn dweud o hyd na fyddant byth yn siarad â'u plentyn am y dewisiadau a wnânt neu brin y byddant yn eu trafod; mae'r ail ffigur yn llawer is na'r 12% a gafwyd ledled y DU.

Gofynnwyd hefyd i rieni plant 12 i 17 oed pa mor aml y byddant yn siarad â'u plentyn am y risgiau sy'n gysylltiedig â benthyca arian, ac effaith mynd i ddyled. Ar y cyfan, dywedodd 46% o rieni yng Nghymru eu bod yn gwneud hynny'n aml, ond dywedodd un o bob pump (20%) na fyddant byth neu brin y byddant yn siarad amdano. Roedd hyn yn is ymhlith rhieni plant 16 i 17 oed, a 12% yn dweud mai prin y byddant yn trafod risgiau benthyca a dyled â'u plentyn, neu y byddant byth yn eu trafod.

Siart 31: Pa mor aml y mae rhieni'n siarad â'u plentyn am y materion ariannol canlynol



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc PP26 (PP). Pa mor aml ydych chi'n siarad ag [Enw'r plentyn] am...?: Arian: 4-10 oed, Dewisiadau 4-17, Benthyca: 12-17 Sylfaen: Pawb – sylfeini'n amrywio

Yn yr un modd, gofynnwyd i blant 11-17 oed a oedd eu rhieni'n trafod â nhw yr hyn y mae'r teulu'n gallu fforddio ei brynu ac yn methu fforddio ei brynu. Dywedodd saith o bob deg (71%) eu bod, ond roedd cytundeb ychydig yn is ymhlith plant 12-15 oed (66%).

A oes rheolau clir am arian?

Mae gwahaniaeth ymhlith rhieni ynghylch gosod rheolau clir yn eu cartrefi am arian. Gofynasom i'r rhieni i ba raddau mae'r datganiad "Rwy'n gosod rheolau a chytundebau clir i'm plentyn am arian, ac yn cadw atynt" yn swnio fel nhw. Dywedodd un o bob tri (32%) o rieni plant 7 i 17 oed nad yw hyn yn swnio fel nhw. Dengys Siart 32 sut y mae hyn yn gwahaniaethu yng Nghymru yn ôl oedran ac incwm y cartref. Ledled y DU, mae hyder ac ymddygiad cynilo hefyd yn bwysig wrth wahaniaethu. Mae'r ganran sy'n dweud 'mae hynny'n swnio fel fi' [37] yn gostwng ag oedran y plentyn, efallai am eu bod yn teimlo nad oes angen rheolau cymaint wrth i'r plant fynd yn hŷn.

37. Swnio fel fi' = y rheini'n sgorio 8–10. 'Ddim yn swnio fel fi' = y rheini'n sgorio 1–5.

Siart 32: A ydy rhieni'n credu eu bod yn gosod rheolau a chytundebau clir i'w plentyn am arian, ac yn cadw atynt



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol 2016 y GCA ar gyfer Plant a Phobl Ifanc P12c (P). Ar raddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn golygu 'nid yw'n swnio fel fi o gwbl', a 10 yn golygu 'mae'n swnio llawer fel fi', i ba raddau y byddech chi'n dweud...? : : Rwy'n gosod rheolau neu gytundebau clir i [Enw'r plentyn] am arian ac yn cadw atynt: Swnio fel fi = 8-10 Ddim yn swnio fel fi = 0-5
Sylfaen: Holl rieni plant 7-17 oed n=476

* Meintiau sylfaen is: 89 (incwm uchel).

Agweddau ac ymddygiadau rhieni

Beth y mae rhieni'n ei feddwl am addysgu plant am arian?

Mae rhieni'n deall bod yr hyn a wnânt yn cael effaith ar ddyfodol ariannol eu plentyn. Dengys Siart 33 fod y rhan fwyaf o rieni yng Nghymru (91%) yn credu ei bod yn bwysig helpu eu plant i ddysgu am arian, a bod tua phedwar o bob pump yn cytuno bod rhieni'n cael effaith ar y ffordd y mae plant yn ymddwyn ynghylch arian pan fyddant wedi tyfu i fyny. Awgryma ein hymchwil blaenorol hefyd fod plant yn debygol o ddynwared eu rhieni o ran arian.[38] Er hyn, mae llai na hanner yn credu bod plant yn tyfu i fyny i fod fel eu rhieni o ran arian. Rhieni mewn teuluoedd incwm isel yw'r lleiaf tebygol o gytuno â'r farn honno.

Mae incwm cartref yn ffactor yn y rhan fwyaf o'r datganiadau hyn, a lefel gynyddol o gytuno ymhlith yr aelwydydd incwm uchel hynny. Gwelwn hefyd ledled y DU mai rhieni sy'n penderfynu sut y mae plant yn gwario eu harian yw'r lleiaf tebygol o gytuno y gallant effeithio ar ymddygiad eu plant. Hwythau hefyd yw'r mwyaf tebygol o gytuno y dylid gwarchod plant rhag deall sut y mae arian yn gweithio, a dweud nad ydynt yn gwybod sut mae siarad â'u plant am arian. **Efallai bod y cyfuniad hwn - o deimlo nad ydynt yn gallu siarad â phlant a dylanwadu ar eu hymddygiad, a phoeni am eu gwarchod - yn arwain at yr angen i reoli yn hytrach na grymuso** sydd, fel y gwelsom drwy'r adroddiad hwn i gyd, yn gallu cael effaith andwyol ar alluoedd ariannol plant. Awgryma hyn fod rhoi cymorth i rieni – fel y gallant ymgysylltu'n fwy effeithiol â'u plant – yn ffactor holl bwysig wrth addysgu plant am gyllid.

38. *Ffurfio Arferion a Dysgu mewn Plant Ifanc* (y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2013).

Siart 33: Cytundeb rhieni â datganiadau am addysgu plant am arian



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc P11 (P). Dyma rai datganiadau y mae rhieni a gofalwyr eraill wedi'u dweud am ddysgu plant i reoli arian. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â...? Ac eithrio'r rheini sy'n dweud "nid y naill na'r llall" neu "ddim yn gwybod". Sylfaen: Holl rieni plant 4-17 oed – sylfeini'n amrywio

Ym mha oedran ydy rhieni'n credu y dylent fod yn addysgu eu plentyn am arian?

Cred bron yr holl rieni y dylent addysgu eu plant am wahanol agweddau ar reoli oedran erbyn y byddant yn 18 oed, fel y dangosir yn Siart 34.

Yn gyffredinol, y cyfnod mwyaf cyffredin y mae rhieni'n credu y dylent ddechrau mynd i'r afael â'r materion ariannol hyn yw rhwng oedrannau 8 ac 11 oed, ac mewn rhai achosion, rhwng 12 a 15 oed.

Cred chwarter (26%) o rieni y dylent annog eu plant i feddwl am beth i'w wneud gyda'u harian o dan 8 oed, a dim ond 25% yn meddwl y dylent fod yn rhoi eu harian gwario eu hunain i blant o dan 8 oed. Dim ond 6% o rieni sy'n credu y dylid addysgu pwysigrwydd cynilion i blant dan 5 oed, a dim ond 29% pellach sy'n credu y dylid trafod hyn rhwng 5 a 7 oed. Fodd bynnag, mae ymchwil blaenorol wedi dangos bod llawer o arferion oedolion wedi'u sefydlu erbyn 7 oed.[39] Drwy'r adroddiad hwn i gyd, rydym wedi gweld bod plant sy'n cael profiad o ddefnyddio arian ac sy'n cael eu cynnwys wrth wneud dewisiadau ariannol yn dangos ymddygiadau ac agweddau mwy cadarnhaol. Fodd bynnag, dengys Siart 23 nad yw rhai rhieni'n ymwybodol o'r buddion hyn.

39. Ibid.

Siart 34: Oedran y mae rhieni a gofalwyr yn credu y dylent ddechrau gwneud y canlynol gyda'u plant[40]



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc PP16 (P). Ym mha grŵp oedran rydych yn credu y dylai rhieni a gofalwyr ddechrau gwneud y canlynol gyda'u plant i'w helpu i fod yn dda gyda'u harian pan fyddan nhw'n tyfu i fyny...? Sylfaen: Holl rieni plant 4-17 oed – sylfeini'n amrywio

Gallai'r oedrannau y mae rhieni'n credu y dylent addysgu eu plentyn fod yn gysylltiedig â'u credoau am yr oedran y mae eu hagweddau a'u harferion ariannol yn cael eu sefydlu. Dengys Siart 35, er bod 97% o rieni yng Nghymru yn credu bod agweddau ac arferion ariannol yn cael eu sefydlu erbyn 18 oed, mai dim ond ychydig dros hanner sy'n credu bod arferion wedi'u sefydlu cyn 12 oed. Mae llai o rieni (36%) yn credu y dylai plant gael y rhyddid i wneud camgymeriadau cyn 12 oed. **Awgryma hyn fod rhai rhieni efallai'n anghyffyrddus â'r syniad bod gwneud camgymeriadau yn rhan o'r broses sy'n ffurfio arferion ac agweddau.**

Nid yw un o bob pump yn credu y dylid caniatáu i blant wneud camgymeriadau nes eu bod yn 16 oed a hŷn. Ni wyddom pa fath o gamgymeriadau y mae'r rhieni yn meddwl amdanynt, ac mae'n siŵr mai eu bwriad yw gwarchod eu plant. Fodd bynnag, mae gwneud camgymeriadau yn rhan bwysig o ddysgu. Hefyd, daw canlyniadau eich camgymeriadau yn llawer mwy difrifol po hynaf y plentyn.

40. Atebion 'Ddim yn Gwybod' wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad ond heb eu dangos, am eu bod 5% neu is ym mhob achos.

Mae'n werth nodi hefyd fod bron hanner y rhieni yng Nghymru yn credu bod arferion yn cael eu sefydlu yn 12 oed neu'n hŷn. Mae hyn mewn cyferbyniad â'n hymchwil blaenorol sy'n dangos bod plant, erbyn 7 oed, yn gallu hunan-reoleiddio eu hymddygiad ac, erbyn 8 oed, fod ganddynt gysyniad digon da o'r dyfodol i ddechrau adeiladu arfer cynilo. [41]

Siart 35: Yr oedran y mae rhieni'n credu y mae arferion yn cael eu sefydlu, ac y dylai plant fod yn rhydd i wneud camgymeriadau.



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc NQ2a (P). Ym mha oedran ydych chi'n credu...? : Bod arferion ac agweddau ariannol unigolyn, er enghraifft bod yn un sy'n gwario neu'n cynilo, yn cael eu sefydlu / Y dylai plant gael y rhyddid i ddechrau gwneud camgymeriadau â'u harian a dysgu ganddynt Sylfaen: Holl rieni plant 4-17 oed. Sylfeini'n amrywio

Pa fath o esiamplau da yw rhieni?

Teimla'r rhan fwyaf o rieni yng Nghymru (72%) y gallant ddangos esiampl dda i'w plant er bod gan lawer ohonynt eu problemau eu hunain o ran lles a gallu ariannol. Ar y cyfan, dim ond 57% o rieni plant 4 i 17 oed sy'n dweud eu bod yn hyderus yn rheoli eu harian, dywed 65% eu bod yn hyderus yn siarad â'u plant am arian a dim ond 23% sy'n fodlon[42] ar eu hamgylchiadau ariannol eu hunain. Mae'r ffaith nad yw un rhan o dair yn hyderus yn siarad â'u plant am arian yn arddangos bod angen cefnogi rhieni yn y sgyrsiau hyn oherwydd byddai 92% o blant yn mynd at eu rhieni am gyngor ariannol (tudalen 44).

Dengys Siart 36 fod dros bedwar o bob deg yn dweud bod eu sefyllfa ariannol yn eu gwneud yn bryderus a bod un rhan o bump yn teimlo nad oes dim y gallant ei wneud i wneud unrhyw wahaniaeth i'w sefyllfa ariannol (yn unol ag 21% o blant, fel y gwelsom ar dudalen 29). Aelwydydd incwm isel sy'n fwyaf tebygol o ddweud hyn.

Er yr anawsterau hyn gyda'u cyllid eu hunain, gall y rhan fwyaf rwystro eu hunain rhag gwario ar eu plant: dim ond 19% yng Nghymru a ddywedodd fod y datganiad "Rwy'n teimlo o dan bwysau i wario arian ar fy mhlant hyd yn oed pan nad allaf ei fforddio" yn swnio fel nhw. Roedd aelwydydd incwm isel yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na rhai incwm canolig ac incwm uchel (mae 25% yn cytuno mewn aelwydydd incwm isel o'u cymharu â 14% mewn rhai incwm uchel).

Gall llai na hanner o rieni arddangos ymddygiad cynilo 'da', a 29% yn dweud eu bod yn cynilo bob mis a 17% yn cynilo'r rhan fwyaf o fisoedd. Fodd bynnag, ni allai mwy na hanner arddangos hyn, a 26% yn dweud mai prin y byddant yn cynilo neu y byddant byth yn cynilo – a hyn yn codi i 38% mewn aelwydydd incwm isel.

41. *Ffurfio Arferion a Dysgu mewn Plant Ifanc* (y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2013).

42. Bodlon = sgorio 8-10 allan o 10.

Siart 36: Cytundeb rhieni â datganiadau am eu hagweddau at arian



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc P10 I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am arian? Ac eithrio'r rheini sy'n dweud "nid y naill na'r llall" neu "ddim yn gwybod". Sylfaen: Holl rieni plant 4-17 oed – sylfeini'n amrywio

Mae llawer o rieni plant 4 i 17 oed yng Nghymru hefyd yn teimlo bod eu biliau a'u hymrwymiadau credyd yn faich arnynt, ac mae rhai wedi syrthio ar ei hôl hi. Ar y cyfan, dywed 75% (68% yn y DU) fod biliau'n faich (15% baich trwm, 60% rhywfaint o faich); mae hwn ar ei uchaf mewn teuluoedd incwm isel. Mae cyfanswm o 15% o rieni plant 4 i 17 oed wedi syrthio ar ei hôl hi neu wedi colli taliadau am dri mis allan o'r chwech diwethaf; mae hyn yn codi i 35% o rieni mewn teuluoedd incwm isel. Ar y cyfan, mae 24% o rieni wedi mynd i or-ddyledusrwydd[43] (sy'n ddiddorol mewn perthynas â data gor-ddyledusrwydd 2017 sy'n dangos mai'r ffigur cyffredinol i oedolion yng Nghymru yw 17.7% wedi mynd i or-ddyledusrwydd).[44] Mae'n ddiddorol bod llawer llai o rieni a aeth i or-ddyledusrwydd (42% o gymharu â 60% yn y DU) yn teimlo eu bod yn esiampl dda i'w plant, na'r rheini nad ydynt mewn dyled ormodol (82%).

Dengys Siart 37 fod hefyd gwahaniaethau amlwg yn ôl incwm yn y ffordd y byddai rhieni'n ymdopi â bil annisgwyl. Yn fwyaf cyffredin, byddai rhieni mewn teuluoedd incwm uchel yng Nghymru yn ei dalu gan ddefnyddio arian yn y banc; byddai rhieni mewn teuluoedd incwm canolig yn ymdopi ond byddai angen defnyddio cynilion, cael credyd neu gwtogi ar wariant arall; a byddai rhieni mewn teuluoedd incwm isel yn gofyn i ffrindiau a theulu helpu, neu ni fyddent yn gallu talu.

43. Diffiniad o or-ddyledusrwydd: i. Rwy'n ei chael yn faich trwm talu fy miliau/ymrwymiadau misol; a/neu ii. Rwyf wedi methu talu bil mewn tri neu ragor o fisoedd allan o'r chwe mis diwethaf (nid tri mis yn olynol o reidrwydd).
44. Ledled y DU ac yng Nghymru, mae rhieni yn fwy tebygol o fod mewn dyled ormodol na'r boblogaeth gyffredinol o oedolion. Dengys ffigurau diweddaraf 2017 fod 22% o rieni yng Nghymru wedi mynd i or-ddyledusrwydd, sy'n llawer uwch nag y mae ymhlith y boblogaeth gyffredinol o oedolion.

Siart 37: Sut y byddai rhieni'n talu bil annisgwyl am £300, sy'n daladwy mewn saith diwrnod.



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc NQ96 Gan feddwl am fil annisgwyl y mae'n rhaid ichi ei dalu cyn pen saith diwrnod o heddiw. Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, y byddech chi'n ei wneud i dalu bil o £300? .
Sylfaen: Holl rieni plant 4-17 oed n= 511.

* Meintiau sylfaen is: 84 (incwm uchel).

Dysgu yn yr ysgol

Beth mae plant wedi'i ddysgu am arian yn yr ysgol neu'r coleg?

Ar y cyfan, dywed 35% o blant 7 i 17 oed eu bod wedi dysgu am reoli arian yn yr ysgol neu'r coleg, dywed 50% nad ydynt wedi dysgu am hynny a dywed 15% nad ydynt yn siŵr. Mae'n bwysig nodi mai'r plant eu hunain sy'n dweud hyn; mae'n bosibl y bydd gan athrawon wahanol safbwynt ac, am fod addysg ariannol yn aml yn rhan o bynciau eraill, efallai na fu'r plant bob amser yn ymwybodol eu bod yn dysgu am reoli arian yn benodol.

Nid yw'r ffigur hwn yng Nghymru yn amrywio yn ôl oedran, ac yn wahanol i'r DU gyfan, nid yw'n amrywio yn ôl incwm cartref.

Ar y cyfan, dywedodd 91% o blant 7-17 oed yng Nghymru a oedd yn cofio dysgu am reoli arian ei fod yn ddefnyddiol iddynt (20% defnyddiol iawn, 71% gweddol ddefnyddiol). Rydym wedi gweld ledled y DU fod plant o aelwydydd incwm isel yn fwy tebygol na'r rheini mewn aelwydydd incwm canolig o ddweud ei fod yn ddefnyddiol iawn, ac felly hefyd plant sy'n cynilo 'bob amser'.

Siart 38: A yw plant sy'n dysgu rheoli eu harian yn yr ysgol neu'r coleg yn ei chael yn ddefnyddiol?



Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol GCA 2016 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc CYP18b (C). Pa mor ddefnyddiol oedd dysgu rheoli eich arian yn yr ysgol neu'r coleg?: 7-17 oed a ddysgodd reoli eu harian yn yr ysgol neu'r coleg: n=162

Ar wahân i werth y gwersi y soniwyd amdanynt, rydym wedi cynnal dadansoddiad ychwanegol o ddata'r DU gyfan i ddeall mwy am y berthynas rhwng y gwersi hyn a gwybodaeth, ymddygiad ac agweddau plant. Oherwydd meintiau sampl bach, nid yw cymariaethau cywerth ar gael ar lefel Cymru yn unig.

Ar ôl rheoli ar gyfer incwm cartref, oedran y plentyn a'i fath o ysgol, mae plant sy'n cofio dysgu am reoli arian yn yr ysgol yn fwy tebygol na'r rheini nad ydynt yn cofio hynny o:

- ofyn i'w rhieni am gyngor am arian
- gofyn i'w hathrawon am gyngor am arian
- bod yn hyderus yn rheoli arian
- gwybod beth yw cyfrif banc
- gwybod sut y mae cyfrif cynilo'n gweithio
- gwybod sut y mae benthyciad diwrnod talu'n gweithio
- gwybod sut y mae bond llywodraeth yn gweithio
- rhoi ateb cywir i gwestiwn am log a chwyddiant. (Ffigur 3, tudalen 35)

Awgryma hyn fod perthynas gadarnhaol rhwng gwersi rheoli arian a chanlyniadau buddiol, ond bod angen ymchwil pellach i ddeall y berthynas hon yn well ac ymhle gall unrhyw fylchau posibl fod.

Goblygiadau

Un o ganfyddiadau allweddol y bennod hon yw'r rôl allweddol y mae rhieni'n ei chwarae wrth i'w plant ddatblygu sgiliau, gwybodaeth, arferion, ymddygiadau ac agweddau ariannol. Mae'r bennod hefyd yn archwilio'r ffydd y mae plant yn ei rhoi yn eu rhieni, a'r diffyg hyder sydd gan rai rhieni ynddynt eu hunain. Mae'r diffyg hyder hwn yn helaeth ond mae'n broblem benodol mewn teuluoedd incwm isel.

Yn gadarnhaol, mae llawer o blant yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am wariant y cartref ac, yn benodol, mae plant mewn teuluoedd incwm isel yn cael eu cynnwys yn aml mewn penderfyniadau am y siopa wythnosol. Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer rhaglenni ymyrryd neu addysg a dargedir at y grŵp hwn, am fod modd defnyddio sefyllfaoedd siopa bwyd yn hawdd i greu esiamplau perthnasol, ymarferol.

Mae'r canfyddiadau yn yr adran hon hefyd yn awgrymu y gallai llawer o rieni elwa ar gymorth i osod yr esiampl orau posibl i'w plant, ac y gall ffynonellau eraill o addysg ac esiamplau da y tu hwnt i'r cartref fod o werth, yn enwedig i'r rheini sy'n byw mewn cyd-destunau sy'n eu gwneud yn fwy tebygol o fod â gallu ariannol gwael. Awgryma hyn gysylltiadau posibl ag adnoddau cymorth i rieni fel 'Education Begins at Home' a hefyd gwefan 'Parenting – Give it time'. Byddai'n ddefnyddiol deall yn fanylach sut yr effeithir ar blant os yw eu rhieni'n gosod esiampl wael yn ariannol; byddai'r maes hwn yn elwa ar ymchwil pellach.

Mae achos cryf o blaid cynllunio, profi a chyflenwi mwy o ymyriadau sy'n gweithio gyda'r teulu cyfan yn hytrach na phlant yn unig. Roedd yr adran hon hefyd yn archwilio amharodrwydd tybiannol rhieni i siarad â'u plant am arian ac i roi cyfrifoldeb iddynt yn ifanc. Dengys y dystiolaeth fod plant yn ifanc iawn yn dechrau ffurfio arferion ac agweddau ac y byddent yn elwa ar fwy o brofiad, y cyfle i gael rhyw reolaeth ar eu cyllid a hyd yn oed y cyfle i wneud camgymeriadau, ond hynny ar raddfa fechan. Mae achos o blaid helpu rhieni i fod yn fwy hyderus a chyffyrddus yn siarad â'u plant. Er enghraifft, gallant siarad am yr hyn y gall y cartref ei fforddio, heb orfod trafod faint y maen nhw'n ei ennill neu faint y maen nhw wedi'i gynilo.

Mae ein canfyddiadau yn yr adran hon hefyd yn nodi y dylai plant ddysgu am gyllid heb fod yn y cartref yn unig. Ledled y DU, mae plant sy'n sôn am ddysgu am arian yn yr ysgol yn gwneud yn well ar nifer o ddangosyddion gallu, sy'n gwneud achos o blaid ehangu cyrhaeddiad addysg ariannol mewn ysgolion a cholegau, i'r holl blant a phobl ifanc. Fel y dywed adolygiad thematig Estyn wrthym, yng Nghymru, mae cyflwyno'r ffrwd 'rheoli arian' yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a rhaglenni astudio diwygiedig ar gyfer mathemateg wedi helpu'r rhan fwyaf o athrawon i nodi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu sgiliau ariannol mewn gwersi mathemateg a phynciau eraill. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion cynradd a mwyafrif yr ysgolion uwchradd, nid yw cynllunio fel arfer yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth ariannol wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Dywed yr ymchwil hwn wrthym y bydd, yng Nghymru, ffocws parhaus ar ysgolion cynradd, gan adlewyrchu ein canfyddiadau eraill ar bwysigrwydd dechrau'n ifanc, a chymorth mewn union bryd yn 16-17 oed mewn ysgolion a cholegau, yn fuddiol.

Eto, mae'n werth nodi bod y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar yr hyn y mae plant yn ei gofio ac efallai bod rhai a gafodd addysg ariannol yn yr ysgol ond heb ei chofio, neu heb ei chydnabod felly. Hefyd, dim ond ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16 y cyflwynwyd y rhaglen mathemateg ddiwygiedig a'r TGAU Mathemateg – Rhifedd newydd sy'n cynnwys canlyniadau addysg ariannol yng Nghymru ac efallai felly na fyddant wedi'u hadlewyrchu yn y canlyniadau hyn.

Yn gadarnhaol, mae rhai ysgolion yng Nghymru fel petaent eisoes yn deall pwysigrwydd addysg ariannol yn y cartref ac yn yr ysgol. Yn ôl adroddiad 2017 Estyn[45] mae rhai ysgolion yn datblygu partneriaethau defnyddiol i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth ariannol rhieni fel y gallant hwy wedyn gefnogi datblygiad galluoedd ariannol eu plant yn well.

45. *Rheoli arian: Addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru* (Estyn, 2017)

Y camau nesaf

Canfu ein hymchwil fod gan blant, ar y cyfan, sylfaen resymol o ddealltwriaeth a gwybodaeth am arian. Maent yn adnabod rhai cynhyrchion a chysyniadau ariannol, ac maent yn gwybod bod gwerth i arian. Maen nhw'n ofalus am ddyledion, a chanddynt ddealltwriaeth ddamcaniaethol o bwysigrwydd cynilion a chysyniad gwerth am arian.

Fodd bynnag, mae rhai agweddau ar allu ariannol nad ydynt wedi'u deall cystal, a rhai nad ydynt yn gwneud cystal ag eraill. Mae themâu clir yn dod i'r amlwg o'n canfyddiadau am ffactorau sydd fel petaent yn gwneud gwahaniaeth pwysig i allu ariannol plant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys: pwysigrwydd dechrau'n gynnar; yr angen i rymuso plant; datblygu ymddygiadau cynilo; a gwendidau fel tyfu i fyny mewn aelwyd incwm isel a diffyg hyder yn rheoli arian.

Ar ddechrau pob pennod, rydym wedi nodi cryfderau yn ogystal â meysydd i'w datblygu mewn gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau. Mae cyfleoedd o hyd i sicrhau bod yr addysg a'r cymorth a roir i blant – ac, yn bwysig, i'r rheini sy'n eu helpu i ddysgu am arian yn y cartref ac yn yr ysgol – yn meithrin y cryfderau hyn ymhellach ac yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn i'w datblygu.

Bydd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn ceisio defnyddio'r adroddiad a'i ganfyddiadau, mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill â diddordeb, i ddylanwadu ar arianwyr, penderfynwyr a chyrff cyflenwi. Ein nod yw eu helpu i ddeall ble mae'r materion allweddol, beth mae hynny'n ei olygu iddyn nhw, a sut gallwn gydweithio i ganolbwyntio ymdrechion ar fynd i'r afael â hwy.

Yn ogystal, bwriadwn adeiladu ymhellach ar y sail dystiolaeth hon a chyflwyno'r canfyddiadau hyn. Yn benodol, byddwn:

1. **yn comisiynu cyfres o 'adroddiadau at wraidd y mater' o'r arolwg hwn** i archwilio'r cwestiynau ymchwil pellach a nodir yn y Crynodeb Gweithredol.

2. **yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i lunio prosiect ehangach ar wendid.** Mae angen inni ddod i ddeall yn well anghenion penodol grwpiau mewn perygl o allu ariannol gwaeth, neu'r rheini y mae effaith negyddol penderfyniadau ariannol gwael yn anghymesur o negyddol iddynt a, gan adeiladau ar hynny, datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'r rhain. Bydd hyn yn cynnwys archwilio ymhellach y berthynas rhwng sgiliau a demograffeg mewn plentyndod a'r glasoed, a chanlyniadau ariannol tymor hir, drwy ddadansoddiad helaeth o Arolwg Carfan Prydain 1970.

3. **yn cwblhau ein peilot rhianta yng Nghymru, "Siarad, Dysgu, Gwneud"** sy'n ceisio rhoi'r sgiliau i rieni sydd eu hangen arnynt i ddatblygu plant ariannol-alluog. Byddwn yn archwilio sut y gall y dulliau a'r adnoddau a ddatblygwyd drwy'r prosiect gael eu datblygu a'u gwerthuso ymhellach i gefnogi rhieni a'u defnyddio'n helaethach ledled y DU.

4. **yn gweithio drwy'r Strategaeth Gallu Ariannol i Gymru a'r Strategaeth i'r DU yn ogystal â Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru i Gymrufel bod darparwyr, arianwyr,** a llunwyr polisi yn defnyddio ein hymchwil ni ac eraill i sicrhau bod addysg ariannol yn cael ei chyfeirio lle mae ei hangen fwyaf a lle mae'n fwyaf tebygol o fod yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys mwy o werthuso o ansawdd uchel i arddangos 'yr hyn sy'n gweithio' ac i adeiladu'r achos busnes o blaid addysg ariannol.

Bydd y canfyddiadau o'r arolwg hwn yn cael eu cyfuno â'r ymchwil arall yr ydym yn ei wneud i ddeall anghenion gallu ariannol plant; gyda'n dadansoddiad o'r ddarpariaeth ac adnoddau presennol; a chyda'r ystod helaeth o brosiectau a gynhelir gennym i gynhyrchu tystiolaeth am 'yr hyn sy'n gweithio'. Bydd hyn yn arwain at gynllun cynhwysfawr i gyflenwi addysg ariannol effeithiol ar y raddfa ofynnol.

Mae'r goblygiadau a drafodir yn yr adroddiad hwn yn gam i'r cyfeiriad sydd ei angen i gyflawni hyn ac i wneud cynnydd tuag at nod y Strategaeth Gallu Ariannol o sicrhau erbyn 2025 fod yr holl blant a phobl ifanc yn cael yr addysg ariannol raenus y mae ei hangen arnynt.

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Mae ein holl ymchwil ar gael ar ein gwefan:
moneyadviceservice.org.uk/en/corporate/research

I gael rhagor o wybodaeth am yr ymchwil hwn, cysylltwch â:

Helen Pitman
Uwch Reolwr Mewnwelediadau
Helen.Pitman@moneyadviceservice.org.uk

Shadi Ghezelayagh
Rheolwr Mewnwelediadau
Shadi.Ghezelayagh@moneyadviceservice.org.uk

Lee Phillips
Rheolwr Cymru
Lee.Phillips@moneyadviceservice.org.uk

Gwasanaeth Cynghori Ariannol
Holborn Centre
120 Holborn
Llundain EC1N 2TD
© Gwasanaeth Cynghori Ariannol
Tachwedd 2017

moneyadviceservice.org.uk/cy